Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Natur hanfodol: Gwneud y cysylltiadau rhwng bioamrywiaeth y bobl a'r lleoedd yng Nghymru

## Cyfeiriad strategol Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer bioamrywiaeth hyd at 2022



Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

# Rhagair



Diane McCrea - Cadeirydd
Cyfoeth Naturiol Cymru



Dr Madeleine Havard (IsGadeirydd)
Cyfoeth Naturiol Cymru

Mae gan Gymru fframwaith cyfreithiol newydd, ac mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru bwrpas newydd. Gyda'i gilydd, maent yn helpu i arwain at newid sylfaenol yn y berthynas sydd gan bobl, busnesau a'r Llywodraeth gyda natur a'r rôl hollbwysig sydd ganddi yn ein llesiant

Er gwaetha'r ymdrechion cadwraeth, mae bioamrywiaeth – amrywiaeth bywyd – yn parhau i ddirywio. Fel cannoedd o sefydliadau eraill ledled y byd, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gliriach nag erioed y bydd ein llesiant a llesiant cenedlaethau'r dyfodol yn dioddef oni bai y gallwn atal a gwyrdroi'r dirywiad hwn ac adeiladu gwydnwch ein hecosystemau.

Mae'r ddogfen hon yn gosod blaenoriaethau a ffyrdd o weithio Cyfoeth Naturiol Cymru mewn cyfres o gamau gweithredu ac ymrwymiadau lefel uchel. Dyma'r pethau y byddwn ni'n eu datblygu yn ystod y blynyddoedd i ddod wrth i ni lansio proses newydd o ymgysylltu, galluogi, cydweithio a dysgu, er mwyn gwneud yn fawr o'r effeithiau cadarnhaol y mae'r penderfyniadau rydym ni ac eraill yn eu gwneud yn gallu eu cael ar fioamrywiaeth ac ecosystemau. Mae'n sefyll ochr yn ochr â Chynllun Corfforaethol Cyfoeth Naturiol Cymru hyd at 2022 a bydd yn llywio ein gwaith i gyflwyno gwelliannau a defnydd cynaliadwy o'n hadnoddau naturiol ac ansawdd a gwydnwch ein hecosystemau. Mae nifer o'r camau gweithredu yn ein Cynllun Corfforaethol, sy'n mynd i'r afael â llifogydd, llygredd, iechyd a llesiant, yn cyfrannu'n uniongyrchol at ddatblygu atebion sydd hefyd yn helpu bioamrywiaeth i ffynnu.

Hefyd am y tro cyntaf, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cychwyn ar ddatblygu gweledigaeth hirdymor ar gyfer yr amgylchedd hyd at 2050, mewn proses gydweithredol gyda'n partneriaid: y sector cyhoeddus, sefydliadau amgylcheddol, grwpiau cymunedol a busnesau yng Nghymru. Bydd y weledigaeth hon yn dod yn gwmpawd ac yn fap llwybr ar gyfer nifer o'r penderfyniadau y bydd angen i ni eu gwneud gyda'n gilydd, wrth i ni ddod o hyd i ffyrdd newydd o weithio er mwyn adfer yr amgylchedd yr ydym i gyd yn dibynnu arno.

Yng Nghymru, fel yng ngweddill y byd, yr hyn sydd wrth wraidd y golled o ran bioamrywiaeth a disbyddiad adnoddau naturiol yw bod yr effeithiau negyddol ar fioamrywiaeth ac ecosystemau yn sgil y rhan fwyaf o weithgareddau cymdeithasol aceconomaidd wedi cael eu diystyru am ganrifoedd i bob pwrpas. Nid yw llygredd awyr a dŵr, colli peillwyr, dirywiad mewn ansawdd pridd, disbyddiad stociau pysgod a difodiant rhywogaethau wedi cael eu hystyried yn ddigonol – neu yn aml, nid ydynt wedi

cael eu hystyried o gwbl – yn y dewisiadau a'r penderfyniadau a wneir gan unigolion, busnesau, cyrff y sector cyhoeddus a hyd yn oed sectorau cyfan o'r economi. O ganlyniad, cafodd fframweithiau cyfreithiol a fframweithiau polisi ar gyfer diogelu'r amgylchedd eu datblygu, yn bennaf er mwyn ceisio rheoli sgil effeithiau annymunol gweithgarwch anghynaliadwy

Ond mae pethau'n newid. Wrth galon a chraidd fframwaith cyfreithiol newydd Cymru ceir cydnabyddiaeth fod llesiant pawb – yn economaidd, yn gymdeithasol, yn ddiwylliannol ac yn amgylcheddol – yn dibynnu ar ecosystemau iach a gwydn, sydd yn eu tro yn dibynnu ar fioamrywiaeth. Tra mae ymdrechion yn y gorffennol wedi bod yn hanfodol er mwyn cyfyngu ar y niwed, mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn rhoi cyfle a gorfodaeth gyfreithiol arnom i symud y ffocws oddi ar reoli'r symptomau i daclo'r achosion sylfaenol. Yr her bellach yw rhoi bioamrywiaeth ac ecosystemau gwydn wrth wraidd cynllunio a gwneud penderfyniadau, ar bob lefel ac ar draws pob sector.

Bydd y cyfeiriad strategol hwn ar gyfer bioamrywiaeth yn llwyfan ar gyfer dialog adeiladol, dadleuon grymus, creadigrwydd ac arloesedd, o fewn ein sefydliad ac wrthi ni weithio gydag arweinwyr ac ymarferwyr o bob sector.

Wrth i ni yn Cyfoeth Naturiol Cymru ailfeddwl ein rôl fel ymarferydd, galluogwr a dylanwadwr, rydym yn cydnabod bod gennym lawer i'w ddysgu, ac rydym yn gwahodd pobl Cymru i ymuno â ni ar daith a fydd yn cyflawni dros fioamrywiaeth ac ecosystemau, ar gyfer y genhedlaeth bresennol a chenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru.

**Gorffennaf 2018**



# Cynnwys

**Natur hanfodol** ........ 5

**Natur o dan fygythiad** ........ 7

**Mynd i'r afael â'r her** ........ 9

**Ein hagenda ar gyfer gweithredu** ........ 12

1. Cysylltu pobl a bioamrywiaeth ........ 13
2. Ymgorffori ystyriaeth bioamrywiaeth a gwydnwch ecosystemau i holl swyddogaethau Cyfoeth Naturiol Cymru ........ 15
3. Gwella'r dull gweithredu ar gyfer safleoedd gwarchodedig ........ 18
4. Gweithio gydag eraill er mwyn cynnal a gwella bioamrywiaeth ........ 22
5. Bod â'r dystiolaeth gywir i lywio ein gwaith ........ 24
6. Buddsoddi yng ngwybodaeth a sgiliau ein staff ........ 27

**Darparu adnoddau ar gyfer y gwaith hwn** ........ 28

**Y camau nesaf** ........ 28

Atodiad 1 Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Fframwaith polisi a chyfreithiol ........ 29

Atodiad 2: Cefnogi'r gwaith o gyflawni amcanion y Cynllun Gweithredu Adfer Natur ac amcanion llesiant CNC ........ 33

Atodiad 3: Rhestr o fyrfoddau a ddefnyddiwyd ........ 34



# Natur hanfodol

Mae amgylchedd naturiol Cymru yn destun rhyfeddod ac ysbrydoliaeth. Mae ein gwlad yn enwog am ei thirweddau a'i morluniau, ei mynyddoedd, ei harfordiroedd a'i choetiroedd. Yn ogystal â rhywogaethau eiconig fel y dolffin trwynbwl, y wiwer goch, brith y gors, y frân goesgoch, y barcud, lili'r Wyddfa a chotoneaster y Gogarth, mae gan Gymru amrywiaeth wych o rywogaethau sy'n llai amlwg ond yr un mor bwysig, gan gynnwys anifeiliaid di-asgwrn-cefn, ffyngau, mwsoglau, cennau, llysiau'r afu ac organebau pridd. Mae'r holl rywogaethau hyn – a gallai fod hyd at 50,000 ohonynt – yn byw mewn un neu fwy o'r amrywiaeth eang o gynefinoedd ar draws y tir, dŵr croyw, arfordiroedd a moroedd, gan gynnwys gorgorsydd, coetiroedd derw, glaswelltiroedd, twyni tywod, afonydd, aberoedd, baeau a riffiau. Yn y cyfamser, mae daeareg amrywiol Cymru yn adnabyddus ledled y byd, gan ei bod wedi cynhyrchu llawer o'r llechi a'r glo a fu'n porthi'r chwyldro diwydiannol. Mae gan Gymru nifer o safleoedd allweddol sydd wedi helpu i ddatblygu gwyddor daeareg ei hun ac sy'n parhau i chwarae rôl allweddol ym maes ymchwil, addysg a thwristiaeth.

Mae gan nifer o bobl gysylltiad dwfn personol ac emosiynol i fyd natur neu i le penodol neu ran o'r byd naturiol, sy'n aml wedi ffurfio o brofiadau a drysorwyd a allai gael eu holrhain yn ôl i gyfnod plentyndod. Mae'r cysylltiadau hyn, er nad ydym efallai bob amser yn ymwybodol ohonynt, yn rhan o'n hymdeimlad o le, ein hanes ac wrth wraidd hunaniaeth ddiwylliannol Cymru: dyma ein treftadaeth naturiol.Wrth gwrs, mae'r ymdeimlad o lesiant emosiynol a ddaw o'r hyn mae cyswllt â natur yn rhoi i ni ar lefel bersonol ond yn rhan o'r darlun. Mae'r amgylchedd naturiol hefyd yn darparu'r holl bethau sydd eu hangen arnom i fyw a ffynnu, fwy neu lai: yr aer rydym yn ei anadlu, y dŵr rydym yn ei yfed, a'r bwyd rydym yn ei fwyta. Mae'n darparu'r deunyddiau crai a'r egni ar gyfer ein cartrefi a'n diwydiannau, a gall hefyd ein hamddiffyn rhag peryglon amgylcheddol fel llifogydd, erydiad pridd ac effeithiau newid hinsawdd.

Mae'r amgylchedd naturiol yn darparu cyflogaeth ac mae'n cynnal cymunedau ymhob rhan o Gymru. Mae miloedd o bobl yn gweithio ym maes ffermio, coedwigaeth a physgodfeydd, ac mae'r cyfan yn dibynnu ar adnoddau naturiol.

### Beth rydym yn ei olygu wrth fioamrywiaeth, ecosystemau a gwydnwch ecosystemau?

Mae **bioamrywiaeth** yn golygu'r amrywiaeth o fywyd ar y ddaear – planhigion, anifeiliaid, ffyngau a micro-organebau. Mae'n cynnwys amrywiaeth genetig o fewn un rhywogaeth, a'r amrywiaeth sy'n bodoli ar draws yr holl rywogaethau. Mae bioamrywiaeth yn ymwneud nid yn unig â rhywogaethau ond yr amrywiaeth o ecosystemau maent yn byw ynddynt, sy'n bodoli ar amrywiaeth o raddfeydd, fel micro-gynefin pridd unigol i dirwedd gyfan. Mae geoamrywiaeth yn golygu'r amrywiaeth o greigiau, mwynau, ffosiliau, tirweddau, gwaddodion a phriddoedd, ynghyd â'r prosesau naturiol sy'n eu ffurfio a'u newid.

Mae **ecosystemau** yn systemau gweithredol sy'n cynnwys bioamrywiaeth, yr amgylchedd cynhaliol (awyr, dŵr, mwynau, pridd) a'r rhyngweithio rhyngddynt.

**Gwydnwch ecosystemau** yw gallu ecosystemau i ymdopi â phwysau, ymyriadau a newid – drwy eu gwrthsefyll, gwella ar eu hôl neu addasu iddynt. Mae gwireddu gwydnwch ecosystemau yn ymwneud â gweithio ar raddfeydd mwy, gan hyrwyddo cysylltiadau gweithredol rhwng lleoedd naturiol a sicrhau bod ganddynt amrywiaeth naturiol uchel a'u bod mewn cyflwr da ac yn cynyddu eu maint. Mae bioamrywiaeth yn elfen greiddiol hanfodol o'r holl ecosystemau gwydn. Mae gan yr holl ecosystemau gweithredol a gwydn fioamrywiaeth sy'n nodweddiadol iach ac yn aml yn gyfoethog.

Mae miloedd yn fwy o bobl yn cael eu cyflogi yn y diwydiannau twristiaeth a hamdden, a'u hadnodd allweddol yw amgylchedd naturiol Cymru a'r cyfleoedd mae'n eu darparu ar gyfer mwynhau ac ymlacio. Mae bywyd natur, tirweddau a morluniau Cymru yn ffynhonnell gyfoethog o ysbrydoliaeth ar gyfer nifer o ffurfiau mynegiant artistig a diwylliannol. Mae'r rhyngweithiadau hyn gyda natur, ar ba bynnag ffyrdd y maent, yn chwarae rôl bwysig wrth gynnal ein hiechyd meddwl ac yn darparu cyfleoedd i wella ein hiechyd corfforol.

Yn syml, mae ein llesiant ni a chenedlaethau'r dyfodol yn dibynnu'n llwyr ar yr amgylchedd naturiol a bioamrywiaeth. Yn llythrennol, ni allem fyw hebddynt. Ac, at hynny, mae gan fioamrywiaeth ei gwerth cynhenid yn ogystal â bod yn hanfodol ar gyfer llesiant bodau dynol.



iStock.com/Malgorzata Sosnowska

# Natur o dan fygythiad

Mae ein hamgylchedd naturiol o dan bwysau a bygythiadau sylweddol. Mae penderfyniadau a wneir gan ddinasyddion unigol, byd busnes a'r llywodraeth yn aml yn cael effaith negyddol ar natur. Mae newid yn yr hinsawdd; llygredd awyr, dyfroedd croyw a moroedd; colli a darnio cynefinoedd i ddatblygiad a newidiadau o ran defnydd tir; cyflwyniad a lledaeniad rhywogaethau goresgynnol, plâu a chlefydau; a'r galwadau cynyddol gan y boblogaeth ddynol ar adnoddau naturiol i ddarparu bwyd, ynni a deunyddiau craidd yn cael effeithiau uniongyrchol neu anuniongyrchol ar fioamrywiaeth.

At hynny, mae bioamrywiaeth ac ecosystemau nid yn unig yn cael eu heffeithio gan y pwysau cyfredol, maent yn dal i oddef effeithiau gweithgareddau dynol a fu dros flynyddoedd, degawdau neu hyd yn oed canrifoedd yn y gorffennol.

Yn debyg i lawer o ardaloedd eraill yn y DU ac Ewrop, mae Cymru'n parhau i wynebu colli bioamrywiaeth. Yn ôl adroddiad Sefyllfa Byd Natur 2016: Cymru,a gyhoeddwyd ar ran consortiwm o bron i 70 o gyrff cadwraeth, rheoli ac ymchwil, o'r rhywogaethau o anifeiliaid a phlanhigion a nodwyd fel blaenoriaethau

## Yn ymarferol: Adfer twyni tywod

Mae cynefinoedd twyni tywod yng Nghymru yn cynrychioli rhai o'n safleoedd bioamrywiaeth pwysicaf, ac maent yn dirweddau nodedig iawn, a gaiff eu gwerthfawrogi am harddwch eu golygfeydd a chyfleoedd ar gyfer mynediad a hamdden i'r cyhoedd. Caiff y twyni eu ffurfio a'u cynnal gan erydu gwynt yn gweithredu ar dywod symudol ac mae ecosystemau twyni iach yn dibynnu ar barhad prosesau naturiol i gynnal eu llystyfiant nodweddiadol a'u ffurf ffisegol. Fodd bynnag, mae nifer o gynefinoedd twyni tywod yng Nghymru wedi sefydlogi yn sgil newidiadau i'w rheolaeth, gan gynnwys lleihad o ran pori, cynnydd yn lefelau maetholion ac amddiffynfeydd arfordirol. Mae sefydlogi o'r fath yn effeithio ar rywogaethau arbenigol o blanhigion ac anifeiliaid sy'n dibynnu ar amodau symudol, llwm neu arloesol. Mae nifer o'n hardaloedd twyni tywod pwysicaf, gan gynnwys yn Niwbwrch, Cynffig a Merthyr Mawr, wedi'u diogelu gan ddynodiadau Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol ac Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, lle y mae nifer o brosiectau adfer twyni tywod ar raddfa fawr yn cael eu cynnal. Mae'r prosiectau hyn yn canolbwyntio ar waith (fel cloddio a gwaredu llystyfiant) i adfer y cydbwysedd rhwng ardaloedd llwm ac ardaloedd o lystyfiant ac i annog symudedd a dynamiaeth naturiol systemau twyni tywod. Y nod yw, drwy ganolbwyntio ar ailsefydlu'r prosesau ecosystemau sylfaenol sy'n cynnal y cynefin, y gellir cyflawni buddion hirdymor, gan gynnwys gwella statws cadwraeth rhywogaethau allweddol, gan leihau'r angen am ailadrodd ymyriadau, a allai gyflenwi buddion hirdymor yn unig.





[1] *Sefyllfa Byd Natur 2016:Cymru.* Ar gael oddi wrth www.wildlifetrusts.org

[2] *Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol 2016. Ar gael o* www.cyfoethnaturiol.cymru

cadwraeth yng Nghymru, aseswyd bod 33% o'r rhywogaethau wedi dirywio dros y degawd diwethaf, gyda rhwng traean a hanner o'r gweddill yn dangos dim gwelliant sylweddol.

Mae Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynnwys asesiadau o gyflwr ein Hardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig, sef y safleoedd sy'n ddarostyngedig i'r lefel uchaf o warchodaeth statudol. Mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig daearol a dŵr croyw yng Nghymru, mae 55% o rywogaethau a 75% o gynefinoedd yn cael eu hasesu fel rhai sydd mewn cyflwr anffafriol, ac mae tuedd i nifer o rywogaethau a mathau o gynefinoedd barhau i ddirywio. Mae asesiadau cyflwr dangosol diweddar o'n Hardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig morol yn awgrymu bod 46% o'r nodweddion dynodedig (o ran cynefinoedd a rhywogaethau) mewn cyflwr ffafriol a 45% mewn cyflwr anffafriol.

Yn fwy eang, mae'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol yn asesu'r graddau y mae adnoddau naturiol yng Nghymru yn cael eu defnyddio a'u rheoli'n gynaliadwy, ac mae wedi edrych ar sut mae pwysau ar adnoddau naturiol Cymru wedi arwain at risgiau a bygythiadau i lesiant economaidd, amgylcheddol, diwylliannol a chymdeithasol yn yr hirdymor. Daw i'r casgliad nad oes unrhyw ecosystem yng Nghymru yn debygol o feddu ar wydnwch da. Mae bod yn llai gwydn yn golygu bod gan ecosystemau a bioamrywiaeth lai o allu i oroesi ac addasu i'r heriau fel newid yn yr hinsawdd, goresgyniad gan rywogaethau annymunol, a phwysau fel newid hydrolegol a darnio cynefinoedd.

Os bydd y tueddiadau hyn yn parhau ac mae ein bioamrywiaeth yn parhau i ddirywio, yna ni fydd modd cymryd mynediad cenedlaethau'r dyfodol i aer glân, dŵr, deunyddiau crau a chyfleoedd ar gyfer mwynhau byd natur yn ganiataol mwyach.



[3] *Asesiadau cyflwr dangosol nodweddion ar gyfer safleoedd morol (EMS))*. Ar gael o www.cyfoethnaturiol.cymru

# Mynd i'r afael â'r her

### Beth yw gwasanaethau ecosystemau?

Mae gwasanaethau ecosystemau yn derm a ddefnyddir ar gyfer yr holl fuddion y mae ecosystemau yn eu darparu i bobl.

- **Cefnogi systemau a gwasanaethau**, gan gynnwys creigwely, ffurfio pridd, cylchu maetholion a chynhyrchu sylfaenol, sy'n angenrheidiol ar gyfer cyflenwi'r holl wasanaethau ecosystemau eraill.
- **Gwasanaethau cyflenwi** fel adnoddau mwynol, cnydau, pysgod, pren a deunyddiau genetig.
- **Gwasanaethau rheoleiddiol,** gan gynnwys puro dŵr, lliniaru llifogydd, mecanweithiau rheoli biolegol, dal a storio carbon, a pheillio cnydau sy'n werthfawr yn fasnachol.
- **Gwasanaethau diwylliannol** sy'n darparu ffynhonnell o gyfoethogiad gwyddonol, hamdden, crefyddol, ysbrydol neu esthetig.

Diben statudol Cyfoeth Naturiol Cymru fel yr amlinellir yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yw mynd i'r afael â rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Mae hyn yn cynrychioli symud i ffwrdd o gyflawni ein swyddogaethau statudol unigol niferus ar wahân oddi wrth ei gilydd, a thuag at fynd i'r afael â'r pwysau a'r hyn sy'n gyrru newidiadau mewn ecosystemau, nid yr effeithiau yn unig. Dyma pam y cafodd Cyfoeth Naturiol Cymru ei sefydlu, ac mae'n rhoi'r cyfle a'r rhwymedigaeth i weithio mewn ffordd fwy cydgysylltiedig. Mae rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, ynghyd â'n dyletswydd o dan Adran 6 y Ddeddf i geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth, a'r Cynllun Gweithredu Adfer Natur sy'n cynrychioli'r strategaeth bioamrywiaeth i Gymru, yn rhoi ffocws wedi'i adnewyddu i Cyfoeth Naturiol Cymru i arfer yr ystod lawn o'n swyddogaethau er mwyn gwella gwydnwch ecosystemau. Mae'r fframwaith polisi a chyfreithiol yn cael ei egluro ymhellach yn Atodiad 1.

Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru amrediad eang o bwerau a dyletswyddau sy'n ymwneud â bioamrywiaeth. Mae gennym swyddogaethau statudol a'u diben sylfaenol yw cadwraeth cynefinoedd, rhywogaethau a geoamrywiaeth, fel ein dyletswyddau a'n pwerau yn ymwneud â dynodi a rheoli safleoedd gwarchodedig a gwarchodaeth statudol ar gyfer rhywogaethau sy'n brin ac o dan fygythiad. Mae ein cylch gwaith eang yn cynnwys bod yn rheoleiddiwr, ymgynghorydd, gwneuthurwr polisi, rheolwr tir, addysgwr, hwyluswr a phartner.

Ni yw'r corff cadwraeth natur statudol ar gyfer Cymru ac rydym yn ymgynghorydd annibynnol arbenigol sy'n gweithredu ar sail tystiolaeth i'r llywodraeth ac eraill. Mae'n deg bod y cyhoedd a'n partneriaid yn disgwyl i ni fod yn hyrwyddwyr bioamrywiaeth a'r amgylchedd, ac mae'n deg iddynt ddisgwyl i ni gymryd rôl arweiniol o ran arloesedd a dylanwadu ar bolisi'r llywodraeth ar gadwraeth natur a bioamrywiaeth.

Mae nifer o feysydd gwaith rydym yn eu gwneud i gyflenwi ein swyddogaethau yn hanfodol i ddiogelu gwelliannau o ran bioamrywiaeth a gwydnwch ecosystemau, gan gynnwys rheoli perygl llifogydd, rheoli coedwigoedd a choetiroedd, rheoleiddio prosesau diwydiannol, amaethyddiaeth, rheoli gwastraff, adnoddau dŵr, pysgodfeydd a hamdden.

Rydym eisoes yn trawsffurfio'r ffordd rydym yn gweithio drwy wneud y canlynol:

- Datblygu gweledigaeth hirdymor fanwl a rannwyd ar gyfer yr amgylchedd naturiol hyd at 2050 gyda'n staff a rhanddeiliaid yn ystod 2018/19, a sut y byddwn ni'n mesur cynnydd tuag ati.
- Ymgorffori ein pwrpas – rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy – ar draws ein holl waith a sicrhau bod dyletswydd bioamrywiaeth a gwydnwch ecosystemau Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 hefyd yn cael ei hymgorffori, gan helpu cyrff cyhoeddus eraill i wneud yr un peth.

## Yn ymarferol: Camau gweithredu ataliol ac addasol i reoli iechyd coed a gwella gwydnwch ecolegol

Mae **Phytophthora ramorum** yn bathogen tebyg i ffwng sy'n gallu achosi difrod sylweddol a marwolaeth i amrediad eang o goed. Yn ystod y pedair blynedd diwethaf, mae dros 650 hectar o goed llarwydd wedi'u cwympo a'u clirio yng Nghwm Afan, sy'n cyfateb i dros 15% o ardal y goedwig, ac mae gwaith cwympo coed yn dal i barhau. Mae'r achosion o *P. ramorum* ledled Cymru, nid yng Nghwm Afan yn unig, wedi bod yr achos mwyaf o glefyd coed ym Mhrydain ers yr epidemig o glefyd llwyfen yr Iseldiroedd yn y 1970au. Roedd angen llawer fawr o gynllunio ac adnoddau er mwyn cyrraedd y lefel o gwympo coed oedd ei hangen yng Nghwm Afan, yn unol â phrotocolau bioddiogelwch, er mwyn ceisio a chyfyngu lledaeniad y clefyd mor bell â phosibl.

Mae'r cwympo coed wedi effeithio ar agweddau gweledol, tirwedd ac amwynder y cwm ond bydd y rhain yn cael eu hadfer dros amser. Rydym yn ceisio gwneud y gorau o'r hyn sydd wedi digwydd drwy roi newidiadau ar waith a fydd yn gwneud y goedwig yn fwy amrywiol ac felly'n ecolegol wydn i fygythiadau yn y dyfodol fel newid yn yr hinsawdd. Rhagwelir y bydd hinsawdd y byd ac yng Nghymru yn newid gyda goblygiadau eang a sylweddol ar gyfer pob ecosystem, gan gynnwys coetiroedd. Mae rhai o'r newidiadau a ragamcanwyd o bosib mor sylweddol fel y gallent newid yn hollol maint, natur a chyflwr y coetiroedd a choedwigoedd sydd gennym yng Nghymru – y rhai a blannwyd yn ddiweddar a'r rhai hynafol – a bydd hyn yn cael effaith ar y gwasanaethau ecosystemau rydym yn eu cael ohonynt.

Mae'r prif risgiau ar gyfer coedwigaeth yng Nghymru yn ymwneud â newidiadau mewn cynhyrchiant coedwigoedd ac addasrwydd y tir; newidiadau i'r math o blâu, pathogenau a rhywogaethau goresgynnol, a'u maint, amlder ac effaith; a newidiadau o ran amlder a/neu faintioli digwyddiadau tywydd eithafol a thân gwyllt.

Drwy gynllun ailstocio coed mwy, rydym yn ceisio adfer Cwm Afan cyn gynted ag y bo modd. Rydym yn plannu amrediad eang o rywogaethau, gan gynnwys coed llydanddail, gan sicrhau bod tarddiad y rhywogaethau hyn yn gallu addasu i newid yr hinsawdd yn y dyfodol. Rydym hefyd yn edrych ar reoli ardaloedd o'r goedwig gan ddefnyddio Systemau Coedamaeth Bach eu Heffaith, a fydd yn gwella cyfleoedd ar gyfer bioamrywiaeth. Gyda'i gilydd, bydd y camau gweithredu hyn yn gwella amrywiaeth strwythurol a genetig y goedwig, ac o ran rhywogaethau, a gwella cysylltedd cynefinoedd, gan wneud y goedwig yn fwy gwydn i fygythiadau'r dyfodol, gan gynnwys plâu a chlefydau.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd yn cymryd rhan mewn gwaith datblygu a gweithredu bioddiogelwch ehangach gyda phartneriaid i sicrhau nad yw'r bygythiadau gan blâu a phathogenau yn dod yn drobwyntiau ecolegol. Mae adfer ecosystemau coetir a ddifrodwyd yn flaenoriaeth ond yr un mor bwysig yw'r mesurau i godi ymwybyddiaeth o symptomau plâu a chlefydau coed, achosion a chamau gweithredu, fel ymgyrch Cadwch yn Lân Cyfoeth Naturiol Cymru.



- Asesu cyflwr ein hadnoddau naturiol a'r graddau rydym yn llwyddo i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy drwy baratoi a chyhoeddi'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol yn 2016, ac anelu at lunio Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol ll erbyn 2020.
- Gweithio gyda rhanddeiliaid i gyd-gynhyrchu datganiadau ardal ar draws Cymru sy'n amlinellu blaenoriaethau, cyfleoedd a chyfyngiadau i helpu i weithredu Polisi Cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar Adnoddau Naturiol ar lefel leol a rhanbarthol.
- Cryfhau ein perthnasau gydag amrediad eang o randdeiliaid a datblygu partneriaethau newydd..
- Cydweithio, fel un o'r pedwar aelod statudol yn yr holl Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru, i gyd-gynhyrchu cynlluniau llesiant ac asesiadau llesiant lleol, fel yr amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
- Ymgorffori ein hamcanion llesiant (a ddatblygwyd o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015) i'n prosesau cynllunio corfforaethol (gweler Atodiad 1).
- Ein gwaith yn yr amgylchedd morol, lle y mae'r fframwaith cynllunio strategol, cyfreithiol a pholisi, gan gynnwys datblygu Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru, eisoes wedi symud i ganolbwyntio'n fwy ar reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a gweithredu dull rheoli ar lefel yr ecosystem.
- Datblygu dulliau Talu am Wasanaethau Ecosystemau (TWE) i nodi cyfleoedd i dirfeddianwyr, rheolwyr a busnesau gyflenwi enillion bioamrywiaeth ac ecosystemau ochr yn ochr ag enillion masnachol.
- Ailstrwythuro ein sefydliad a ffyrdd o weithio i greu rhaglenni integredig ar gyfer y gwasanaethau rydym yn eu cyflenwi, a rhoi ffocws cryfach ar drefnu ein gwaith cyflenwi o amgylch lleoedd a chyrraedd ein hamcanion llesiant.

## Yn ymarferol: Gweithredu'r dull rheoli ar lefel yr ecosystem yn yr amgylchedd morol

**Mae'r degawd diwethaf wedi gweld datblygiad sylweddol o ran y fframwaith cadwraeth, rheoli a chynllunio ar gyfer yr amgylchedd morol ar lefelau cenedlaethol, Ewropeaidd a rhyngwladol. Mae'r fframwaith newydd yn ymgorffori'r dull rheoli ar lefel yr ecosystem fel gofyniad mewn deddfwriaeth a pholisi mewn ffordd sy'n gyson ag egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Mae elfennau newydd y fframwaith newydd hwn yn cynnwys Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009, Datganiad Polisi Morol y DU (strategaeth forol y DU a ddatblygwyd yn unol â Chyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol), a Chynllun Morol Cenedlaethol Cymru. Mae gofynion cyfreithiol yn y fframwaith uchod hefyd, ac ymrwymiadau pellach o dan y Confensiwn OSPAR, i ddatblygu rhwydwaith ecolegol gydlynol o Ardaloedd Morol Gwarchodedig a reolwyd yn dda ar raddfa'r DU a rhan ogledd-ddwyreiniol yr Iwerydd. Mae'r dull rhwydwaith yn cyfuno pob math o safleoedd morol gwarchodedig mewn un rhwydwaith a ddyluniwyd yn ôl cyfres o egwyddorion, gan gynnwys cysylltedd a gwydnwch, a fwriadwyd ar y cyd i gefnogi gwydnwch ehangach ecosystemau a chreu dull strategol a dargedwyd ar gyfer dynodiadau. Drwy ein swyddogaethau statudol ac ymgynghorol o dan y rhain a mecanweithiau eraill, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithredu dull sy'n gyson ag egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a'n hamcanion bioamrywiaeth i'r amgylchedd morol.**



# Ein hagenda ar gyfer gweithredu

Mae diben statudol rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy CNC yn cefnogi, diffinio ac yn gyrru ein gwaith bioamrywiaeth. Rydym wedi casglu safbwyntiau aelodau bwrdd, staff a rhanddeiliaid i helpu i ddiffinio ein dyheadau ar gyfer ein gwaith ar fioamrywiaeth ac adeiladu gwydnwch ecosystemau dros y blynyddoedd i ddod, ac i nodi meysydd ar gyfer arloesedd a gwelliant ar draws yr holl feysydd perthnasol ar gyfer ein gwaith. Gan adeiladu ar yr egwyddor o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy ym mholisi Llywodraeth Cymru ar adnoddau naturiol a'r amcanion a amlinellir yn y Cynllun Gweithredu Adfer Natur (gweler Atodiad 1), rydym wedi nodi meysydd blaenoriaeth ar gyfer ein gwaith ar fioamrywiaeth a gwydnwch ecosystemau o dan y chwe thema ganlynol:

1. Cysylltu pobl a bioamrywiaeth
2. Ymgorffori ystyriaeth bioamrywiaeth a gwydnwch ecosystemau i holl swyddogaethau Cyfoeth Naturiol Cymru
3. Gwella'r dull gweithredu ar gyfer safleoedd gwarchodedig
4. Gweithio gydag eraill er mwyn cynnal a gwella bioamrywiaeth
5. Bod â'r dystiolaeth gywir i lywio ein gwaith
6. Buddsoddi yng ngwybodaeth a sgiliau ein staff

Caiff pob un o'r rhain eu hamlinellu'n fanylach isod, gyda'r nodau rydym am eu cyflawni a chyfres o ymrwymiadau a chamau gweithredu lefel uchel.

Rydym yn gwybod na all Cyfoeth Naturiol Cymru lwyddo i wneud hyn ar ei ben ei hun. Mae gan gyrff eraill yn y sector cyhoeddus a phreifat, gan gynnwys y rheini mewn meysydd fel iechyd, twristiaeth, trafnidiaeth, diwydiant, manwerthu a thai, rôl weithredol i'w chwarae. Mae'r holl awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru yn ddarostyngedig i ddyletswydd bioamrywiaeth o dan Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, ac rydym eisiau gweithio gyda nhw i'w cefnogi i gyflenwi'r ddyletswydd hon, tra bo'n ymgysylltu hefyd â'r sector preifat, cyrff anllywodraethol, sefydliadau cymunedol a gwirfoddolwyr.

Mae'n rhaid i ni hefyd gydnabod nad yw bioamrywiaeth ac ecosystemau yn parchu ffiniau gwleidyddol neu weinyddol. Nid ffin Cymru a Lloegr a'r ffin tuag at y môr yn ein hardal forol yw terfyn allanol ein hecosystemau. Mae angen i ni weithio gyda phartneriaid mewn mannau eraill yn y DU, Gweriniaeth Iwerddon a thu hwnt, gan gydnabod bod angen gwaith meddwl a gweithredu ar draws ffiniau rhanbarthol a chenedlaethol er mwyn mynd i'r afael â nifer o'r bygythiadau i fioamrywiaeth a gwydnwch ecosystemau.

## Yn ymarferol: Prosiect adfer Ffeniau Ynys Môn a Llŷn

**Mae ffeniau Ynys Môn a Llŷn yn gynefinoedd gwlyptir prin, lle y mae'r cyfuniad o amodau alcalinaidd ac asidig yn cefnogi planhigion ac anifeiliaid nodedig ac anarferol. Mae eu pwysigrwydd rhyngwladol yn cael ei gydnabod drwy eu dynodi'n Ardaloedd Cadwraeth Arbennig. Rhwng 2009 a 2015, gwnaeth Cyfoeth Naturiol Cymru gynnal rhaglen fawr o adfer cynefinoedd ac ymgysylltu â'r gymuned ar y ffeniau ac o'u cwmpas, wedi'i chefnogi gan gyllid rhaglen LIFE yr Undeb Ewropeaidd.**

**Teimlwyd bod rhan ganolog yr oedd gan y ffeniau unwaith ym mywyd economaidd a chymdeithasol cymunedau lleol wedi'i cholli. Roeddent wedi dioddef difrod ac esgeulustra cynefin hirdymor, gan gynnwys o waith draenio, llygredd maethynnol a dirywiad hirdymor arferion defnydd tir traddodiadol fel pori da byw, llosgi achlysurol a chynaeafu brwyn, a oedd wedi arwain at ddatblygiad prysg ac ardaloedd mawr o ordyfiant. Hefyd, roedd newid o ran ansawdd a maint y dŵr wedi arwain at fawn yn dadfeilio, a oedd yn ei dro yn effeithio ar ansawdd y dŵr yfed lleol.**

**Gwnaeth Cyfoeth Naturiol Cymru weithio gyda thirfeddianwyr yn y ffeniau ac o'u cwmpas i adfer y mawn diraddiedig, clirio ardaloedd o brysg, ailsefydlu tir pori, adfer cyrsiau dŵr, a rheoli lefelau dŵr fel y gallant gynnal amrywiaeth y rhywogaethau nodweddiadol. Disgwylir i'r prosiect gyflenwi buddion economaidd a chymdeithasol hirdymor, yn ogystal ag enillion amgylcheddol. Mae ardaloedd a gafodd eu gadael bellach wedi'u hagor i dda byw bori, tra bo adfer cynefin y ffen yn gwella ei allu i amsugno a dal dŵr, gan gyfrannu at liniaru llifogydd a gwelliannau sy'n parhau o ran ansawdd y dŵr. Mae cyfleoedd newydd ar gyfer mynediad hamdden i'r tirweddau anarferol ac ysbrydoledig hyn hefyd yn cael eu datblygu.**

## 1. Cysylltu pobl a bioamrywiaeth

Mae ein bywyd gwyllt, cynefinoedd, tirweddau a morluniau yn ffynhonnell o ysbrydoliaeth a mwynhad i bobl sy'n byw ac yn gweithio yng Nghymru ac i ymwelwyr, yn ogystal â darparu gwaith a gwasanaethau ecosystemau hanfodol fel bwyd, dŵr glân ac amddiffyniad rhag llifogydd. Mae cydnabod dibyniaeth amrediad eang o wasanaethau ecosystemau ar fioamrywiaeth wrth wraidd y gwaith o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a'r nodau llesiant.

Wrth gydnabod yr holl nwyddau materol a gwasanaethau mae ecosystemau yn eu darparu i ni, ni ddylem golli golwg ar bwysigrwydd cysylltiadau personol ac emosiynol pobl â byd natur. Gall colli'r cysylltiad hwnnw gael effaith negyddol ar lesiant unigolion a chymunedau a'i gwneud yn llawer anos sbarduno newidiadau cadarnhaol o ran agweddau ac ymddygiad. Os yw pobl yn ymgysylltu'n uniongyrchol â'r byd naturiol, boed drwy weithgareddau awyr agored, addysg a dysgu amgylcheddol, ymchwil wyddonol neu'r celfyddydau, neu drwy gymryd rhan weithredol wrth reoli ardaloedd o dir, dŵr neu fôr ar gyfer eu bioamrywiaeth, maent yn teimlo cysylltiad â natur ac yn ddibynnol arni, gan felly osod gwerth cynyddol arni a'r holl fuddion mae'n eu darparu.

### Ein nod:

Mae pawb yn gwerthfawrogi rhywogaethau a chynefinoedd, tirweddau a morluniau Cymru ac mae ganddynt gyfleoedd ar gyfer mynediad at natur. Mae gwerthfawrogiad a dealltwriaeth eang o werth y byd naturiol a'i bwysigrwydd ar gyfer llesiant pobl a'r economi, gan helpu i alinio'r dewisiadau rydym yn eu gwneud gyda chapasiti ecosystemau i'n cefnogi.

Er mwyn ein helpu i gyflawni'r nod hwn, byddwn yn gwneud y canlynol:

- Hyrwyddo bioamrywiaeth a geoamrywiaeth Cymru, a defnyddio pob cyfle i godi diddordeb, ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y cyhoedd.
- Blaenoriaethu bioamrywiaeth wrth ddatblygu ein strategaeth ar gyfer cyfathrebu ac ymgysylltu â'n partneriaid, rhanddeiliaid a'r cyhoedd, gan geisio pryd bynnag y bo'n bosibl i sbarduno diddordeb a gwerthfawrogiad o fywyd gwyllt, cynefinoedd a lleoedd arbennig. Mae hyn yn golygu nid yn unig canolbwyntio ar ein tirweddau a morluniau anghysbell a syfrdanol yng nghefn gwlad, ond hefyd drwy gydnabod gwerth y cysylltiad â natur mewn lleoliadau lleol, bob dydd fel parciau, gerddi a gofodau gwyrdd trefol.
- Annog cyfleoedd ar gyfer cysylltiad cadarnhaol â natur drwy ein gwaith hyrwyddo hamdden a mynediad awyr agored i gefn gwlad, arfordir a môr Cymru, gan gynnwys, er enghraifft, Llwybr Arfordir Cymru a defnydd hamdden ac addysgol o fforestydd sydd mewn perchenogaeth gyhoeddus.
- Gwella'r cyfraniad mae safleoedd gwarchodedig, yn arbennig ein Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol, yn gallu ei wneud i wella ein llesiant drwy'r cyfleoedd maent yn eu darparu ar gyfer hamdden, dysgu a chysylltiad â natur mewn lleoliadau prydferth ac ysbrydoledig.
- Codi ymwybyddiaeth o'r buddiannau trawsbynciol a ddarperir gan welliannau mewn bioamrywiaeth ac ecosystemau gwydn i'r economi ac iechyd a llesiant dynol, ac ar gyfer cynyddu ymdeimlad pobl o gysylltiad materol a diwylliannol â natur.
- Cefnogi awdurdodau cyhoeddus o bob math yn eu gwaith o gydymffurfio â'u dyletswydd bioamrywiaeth o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 drwy weithio i ddarparu a rhannu arfer gorau, astudiaethau achos, tystiolaeth, cyngor ac ysbrydoliaeth, gan gynnwys

drwy Bartneriaeth Bioamrywiaeth Cymru a'n hymgysylltiad â Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.

- Gweithio'n gydweithredol â'r sector amgylcheddol anllywodraethol, gan alinio ein hamcanion a chydgyfrannu adnoddau lle bynnag y bo'n bosibl, gan dynnu ar eu sgiliau a'u profiad o hyrwyddo diddordeb y cyhoedd yn y byd naturiol a defnyddio gwyddoniaeth dinasyddion fel ffordd o ennyn diddordeb a gwerthfawrogiad o natur yn ogystal â dull o gasglu tystiolaeth..
- Archwilio ffyrdd y gallwn gefnogi datblygiad economi gyfrifol yng Nghymru sy'n seiliedig ar natur, fel twristiaeth bywyd gwyllt a choedwigaeth gynaliadwy, gan sicrhau bod mentrau o'r fath yn cefnogi bioamrywiaeth a chadwraeth natur a meithrin newid ymddygiad yn gadarnhaol.
- Cydweithio ag awdurdodau parciau cenedlaethol Cymru ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol, gan adeiladu ar y cysylltiadau dwfn sydd gan gymunedau ac ymwelwyr â'r tirweddau hyn a drysorir ac sy'n enwog yn rhyngwladol, er mwyn gwella dealltwriaeth a phrofiad y cyhoedd o natur a'r perthnasau cymhleth rhwng tirweddau/morluniau a bioamrywiaeth.

## Yn ymarferol: Rhaglen Tirweddau'r Dyfodol Cymru

**Mae Rhaglen Tirweddau'r Dyfodol Cymru Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r Awdurdodau Tirweddau Dynodedig (ar gyfer y tri pharc cenedlaethol a'r pum Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol yng Nghymru), Cyfoeth Naturiol Cymru, cyrff anllywodraethol, a phartneriaid sector preifat a chyhoeddus i ddatblygu mwy o ddulliau strategol a chydweithredol i fynd i'r afael â'r problemau sy'n wynebu'r parciau cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol. Un o'r prif themâu i ddeillio o'r gwaith hwn yw sut i fynd i'r afael â cholli bioamrywiaeth a newid yn y dirwedd, gan gynnwys o fewn cyd-destun gadael yr Undeb Ewropeaidd, ac atgyfnerthu rôl a diben cadwraeth y tirweddau dynodedig yng Nghymru, y mae eu pwysigrwydd ar gyfer bioamrywiaeth wedi'i gydnabod gan yr Undeb Rhyngwladol dros Gadwraeth Natur (IUCN). Mae partneriaid Tirweddau'r Dyfodol Cymru wedi dod at ei gilydd i roi cynnig ar fynd i'r afael â'r problemau hyn ar draws ardaloedd mawr o Gymru. Er mwyn arwain at newid trawsffurfiol, bydd y cynnig cydweithredol hwn yn ymestyn y tu hwnt i'r 25% o Gymru sydd wedi'i ddynodi'n barc cenedlaethol neu'n Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol. Gan fabwysiadu dull sy'n seiliedig ar le, sy'n cynnwys cymunedau a rheolwyr tir, bydd yn profi ymyriadau i gyflenwi canlyniadau cadwraeth ochr yn ochr â buddion llesiant ehangach.Rhagwelir y gallai'r canlyniadau o'r rhaglen hon helpu i siapio polisi gwledig yn y dyfodol.**



iStock.com/George-Standen

## 2. Ymgorffori ystyriaeth bioamrywiaeth a gwydnwch ecosystemau i holl swyddogaethau Cyfoeth Naturiol Cymru

### Swyddogaethau Cyfoeth Naturiol Cymru

- Bob blwyddyn, rydym yn rhoi mwy na 10,000 o ganiatadau a thrwyddedau ar gyfer gweithgareddau sy'n effeithio ar gyrff dŵr, ansawdd yr aer, rheoli gwastraff, defnydd tir, coetiroedd, perygl llifogydd, yr amgylchedd morol, pysgodfeydd, safleoedd gwarchodedig a rhywogaethau a warchodir.
- Rydym yn ymateb i oddeutu 8,000 i 9,000 o ymgynghoriadau cynllunio y flwyddyn, yn ogystal â chyfrannu at baratoi cynlluniau, strategaethau a dogfennau polisi niferus gan Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, cwmnïau cyfleustodau ac eraill.
- Rydym yn gyfrifol am reoli 58 o 76 o Warchodfeydd Natur Cenedlaethol Cymru, a 126,000 hectar o goetiroedd sy'n eiddo i Lywodraeth Cymru, gan gynrychioli tua 7% o arwynebedd tir Cymru.
- Rydym yn berchen ar dros 4,000 o asedau amddiffyn rhag llifogydd ac yn cynnal 510km o amddiffynfeydd llifogydd.
- Rydym yn hyrwyddo mynediad i gefn gwlad, rheoli pysgodfeydd dŵr croyw, gwneud trefniadau rheoli tir gyda rheolwyr tir, cynnal a chomisiynu prosiectau monitro ac ymchwil, gorfodi deddfwriaeth amgylcheddol, ymateb i ddigwyddiadau amgylcheddol, a chyhoeddi amrediad eang o wybodaeth ac adroddiadau technegol ac anhechnegol am ein gwaith ac am adnoddau naturiol Cymru.
- Rydym yn cyflawni amrediad llawn o swyddogaethau ategol sy'n ein galluogi i gyflenwi'r holl gyfrifoldebau hyn, gan gynnwys cynllunio corfforaethol, rheolaeth ariannol, adnoddau dynol, systemau TG, data a gwybodaeth, cyfathrebu, adeiladau, cerbydau ac offer.

Mae pwyslais y ddeddfwriaeth a'r polisi newydd yn gadarn ar y gofyniad i integreiddio gofynion ecosystemau gwydn a bioamrywiaeth i holl sectorau a swyddogaethau awdurdodau cyhoeddus. Yn Cyfoeth Naturiol Cymru, mae'r cyfrifoldeb dros gynnal a gwella bioamrywiaeth a gwydnwch ecosystemau nid yn unig yn berthnasol i'n staff bioamrywiaeth a chadwraeth natur, ond ar draws holl amrediad ein swyddogaethau.

O dan Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, wrth gyflawni ein holl swyddogaethau mae'n rhaid i ni geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth a gwydnwch ecosystemau, a thrwy hynny gyfrannu at y nodau llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

## Ein nod:

Mae ein dyletswydd statudol i gynnal a gwella bioamrywiaeth ac adeiladu gwydnwch ecosystemau wrth gyflawni ein swyddogaethau wedi'i hymgorfforri'n llawn fel ystyriaeth allweddol i holl feysydd gwaith Cyfoeth Naturiol Cymru, ac rydym yn dysgu oddi wrth eraill ac yn rhannu arferion sy'n ysbrydoli ac yn galluogi'r llywodraeth, awdurdodau cyhoeddus a busnesau ledled Cymru i wneud yr un peth.

Er mwyn ein helpu i gyflawni'r nod hwn, byddwn yn gwneud y canlynol:

- Sicrhau bod bioamrywiaeth a gwydnwch ecosystemau yn cael eu hystyried yn ystod camau cychwynnol ein prosesau cynllunio a gwneud penderfyniadau a gellir disgwyl y byddant yn cael eu hymgorffori'n arferol i'n cynlluniau a rhaglenni, cyngor, trwyddedu a rheoleiddio, rheoli tir ac asedau, a chomisiynu a chaffael.

- Adeiladu ar arfer da a datblygu hyfforddiant, arweiniad ac adnoddau gwybodaeth ar gyfer staff i sicrhau safonau uchel wrth gyflawni ein dyletswydd Adran 6 ar draws ein holl swyddogaethau.

- Ymgorffori cydymffurfiaeth â'n dyletswydd Adran 6 i'n cynlluniau sefydliadol (Cynllun Corfforaethol, Cynllun Busnes a chynlluniau cyflenwi) yn hytrach na llunio cynllun sydd ar wahân ar gyfer ein dyletswydd Adran 6.

- Adrodd ar yr hyn rydym yn ei wneud i gyflenwi ein dyletswydd bioamrywiaeth drwy wneud adrodd o'r fath yn rhan ganolog o'n proses rheoli perfformiad ac adrodd ehangach.

- Annog datblygiad fframwaith ariannol ar gyfer amaethyddiaeth a choedwigaeth ar ôl gadael yr UE sydd â chynnal a gwella bioamrywiaeth a gwydnwch ecosystemau wrth ei graidd a darparu cymorth a chyngor arbenigol i Lywodraeth Cymru i alluogi i hynny ddigwydd.

- Rheoli'r tir rydym yn gyfrifol amdano fel enghraifft batrymol ar gyfer bioamrywiaeth ac adeiladu gwydnwch ecosystemau, gan gynnwys ar ystâd goetir Llywodraeth Cymru, Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol ac asedau amddiffyn rhag llifogydd. Bydd hyn yn cynnwys cyflenwi diben a rôl ystad goetir Llywodraeth Cymru yng nghyd-destun Safon Coedwigaeth y DU a Strategaeth Coetiroedd i Gymru Llywodraeth Cymru.

- Arwain drwy esiampl drwy gyflenwi buddiannau lluosog ar ein tir a'n hasedau, gan gynnwys archwilio cyfleoedd ar gyfer gwella ac adfer cynefinoedd a sicrhau bod y safleoedd gwarchodedig rydym yn eu rheoli yn cyrraedd eu nodau cadwraeth. Bydd hyn yn cynnwys dangos arferion gorau ac arloesedd.

- Gweithredu arferion gorau bioddiogelwch ar draws y sefydliad, er mwyn helpu i leihau'r risgiau i fioamrywiaeth, gwydnwch ecosystemau a llesiant rhag plâu, clefydau a rhywogaethau goresgynnol.

- Fel rhan o'r gwaith o ymgorffori rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a sicrhau ein bod yn cyflawni ein dyletswydd Adran 6, asesu i ba raddau mae camau gweithredu a chanlyniadau bioamrywiaeth yn cael eu hymgorffori i gyflenwi ein holl swyddogaethau, er mwyn helpu i adnabod meysydd blaenoriaeth ar gyfer gweithredu ac arloesedd. Bydd hyn hefyd yn cynnwys edrych ar ffyrdd o wella ein dealltwriaeth o effeithiolrwydd ein hymyriadau.

## Yn ymarferol: Rheoli bioamrywiaeth a chadwraeth ar ystad goetir Llywodraeth Cymru

Mae oddeutu 16,309 hectar (13%) o ystadgoetir Llywodraeth Cymru wedi'i gategoreiddio fel coedwig sydd â gwerth cadwraeth uchel, sy'n golygu ei bod yn cael ei rheoli'n bennaf ar gyfer amcanion cadwraeth. Mae hyn yn cynnwys ardaloedd coedwig a ddynodwyd fel Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig, a hefyd Coetiroedd Hynafol Lled Naturiol, Coetiroedd Lled Naturiol, Planhigfeydd ar Safleoedd Coetir Hynafol a gwarchodfeydd natur. I gefnogi strategaeth Coetiroedd i Gymru Llywodraeth Cymru ac yn unol â Safon Coedwigaeth y DU, mae gennym raglenni amrywiol ar waith i reoli'r ardaloedd hyn o ystad goetir Llywodraeth Cymru, er mwyn gwarchod a gwella eu bioamrywiaeth a gwella eu gwydnwch ecolegol, gan gynnwys:

Adfer, fel mater o flaenoriaeth, Planhigfeydd ar Safleoedd Coetir Hynafol i gyflwr mwy naturiol, gan dynnu'r conifferau yn raddol a chaniatáu iddynt ddychwelyd i goed llydanddail yn bennaf, gan gynnal fflora a ffawna creiriol cynhenid sy'n dal i oroesi.   Enghraifft dda o hyn yw ein gwaith yng Nghoed Gwent ger Casnewydd, a gafodd ei achredu'n ddiweddar o dan fenter Canopi Cymanwlad y Frenhines.

Ymyriadau rheoli a dargedwyd mewn ffordd ragweithiol ar gyfer cadwraeth bioamrywiaeth. Er enghraifft, yng Nghoedwig Clocaenog, rydym yn rheoli'r goedwig mewn partneriaeth ag eraill i gefnogi'r gwaith cadwraeth parhaus ar gyfer y wiwer goch, glöyn byw y fritheg berlog fach a'r grugieir ddu. Yng Nghoed y Brenin, rydym wedi dechrau ar waith gwella cynefin fel rhan o'r prosiect Perlau mewn Perygl er mwyn diogelu dyfodol cregyn gleision dŵr croyw, sydd i'w canfod o fewn Ardal Cadwraeth Arbennig Afon Eden.

Cael gwared ar rywogaethau estron goresgynnol, gan gynnwys rhododendron a hemlog y gorllewin. Er enghraifft, yng Nghoed Cwm Cletwr, rydym wedi cael gwared ar dros 20 hectar o hemlog y gorllewin ers diwedd y 1990au. Mae Cwm Cletwr yn rhan o rwydwaith o waith adfer safleoedd coetir hynafol yn Nyffryn Dyfi. Ar y cychwyn, gwnaed peth gwaith ailblannu gyda choed cynhenid a dyfwyd yn lleol er mwyn helpu i gynnal cyflwr pridd y coetir, ond, wedi hynny, mae adfywiad naturiol wedi digwydd ac mae fflora a ffawna coetir cynhenid naturiol wedi mynd yn araf ond yn sicr o nerth i nerth, gan gynnwys y pathew.



*4 Diben a rôl Ystad Goetir Llywodraeth Cymru. Ar gael oddi wrth www.cyfoethnaturiol.cymru*

## 3. Gwella'r dull gweithredu ar gyfer safleoedd gwarchodedig

Mae safleoedd gwarchodedig ar dir, dyfroedd mewnol a'r môr yn fath allweddol o fesur ar gyfer cyflenwi rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy ac yn ddull hanfodol ar gyfer cynnal bioamrywiaeth ac adeiladu gwydnwch ecosystemau. Rydym eisiau i'n safleoedd gwarchodedig weithredu fel ardaloedd craidd i rwydwaith ecolegol gwydn, lle y gall cynefinoedd a phoblogaethau bywyd gwyllt ffynnu ac ymestyn, gan ail-gytrefu ardaloedd lle'r oeddent wedi'u colli a chyfrannu at wasanaethau ecosystemau ymhell y tu hwnt i ffiniau'r safle gwarchodedig.

Ar y tir (gan gynnwys y blaendraeth), mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru ddyletswydd  gyfreithiol i hysbysu Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig pan fyddant yn bodloni meini prawf y cytunwyd arnynt ar lefel y DU, ac i wella cadwraeth mewn Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a'r safleoedd eu hunain ymhellach. Bwriedir i'r gyfres o Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig gynrychioli'r amrediad llawn o fioamrywiaeth a geoamrywiaeth yn y DU, ac mae cynnal yr amrywiaeth naturiol honno yn ganolog ar gyfer sicrhau ecosystemau gwydn. Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd ddyletswyddau o dan ddeddfwriaeth bioamrywiaeth yr UE i weithredu'r holl swyddogaethau perthnasol ar gyfer cadwraeth nodweddion morol a daearol Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig.

Fodd bynnag, os ydym ond yn canolbwyntio ar ddynodi, amddiffyn a rheoli'r safleoedd hyn ac nid ydym yn mynd i'r afael â'r pwysau ehangach ar fioamrywiaeth a gwydnwch ecosystemau, gallai'r trysorau hyn ddod fwyfwy yn ynysoedd unig o fioamrywiaeth. Yn fwyfwy, bydd adnoddau cyfyngedig ar gyfer gwarchod a rheoli safleoedd yn cael eu defnyddio i geisio amddiffyn safleoedd unigol rhag dirywiad pellach, yn hytrach na chymryd camau gweithredu cadarnhaol a mynd i'r afael â'r bygythiadau ehangach sy'n effeithio ar y rhwydwaith cyfan o safleoedd. .

### Ein nod:

Mae safleoedd gwarchodedig ar dir a môr yng Nghymru yn rhwydwaith integredig, wedi'u cysylltu'n ecolegol â'r dirwedd a'r morlun ehangach, yn gallu gwrthsefyll newid yn yr hinsawdd, a lle y bo dulliau gweithredu deinamig i ddynodi a rheoli safleoedd yn galluogi i gynefinoedd a rhywogaethau ffynnu ac ymestyn, gan ddarparu gwasanaethau ecosystemau ymhell y tu hwnt i ffiniau'r safle.

Er mwyn ein helpu i gyflawni'r nod hwn, byddwn yn gwneud y canlynol:

- Datblygu dull gweithredu strategol i safleoedd daearol, dŵr croyw a morol a warchodir, sy'n galluogi i'r gwaith o gynllunio a rheoli'r rhwydwaith o safleoedd yn y dyfodol fynd i'r afael â'r heriau allweddol yn effeithiol, gan gynnwys yn benodol effeithiau newid yn yr hinsawdd ar fioamrywiaeth, gwydnwch ecosystemau a llesiant. O ran yr amgylchedd morol, bydd ein dull gweithredu yn cefnogi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i sefydlu rhwydwaith cydlynol ecolegol o Ardaloedd Morol Gwarchodedig. .[5]
- Adeiladu gwydnwch ecosystemau a darpariaeth gwasanaethau ecosystemau drwy gynnal a gwella rôl y safleoedd gwarchodedig o ran cadwraeth enghreifftiau cynrychioliadol o gynefinoedd, rhywogaethau a geoamrywiaeth ac wrth wella cysylltedd ecolegol.
- Archwilio opsiynau i reoli safleoedd gwarchodedig mewn rhwydweithiau daearyddol a ddiffinnir a grwpiau neu glystyrau, wedi'u cefnogi gan

[5] *UK Contribution to Ecologically Coherent MPA Network in the North East Atlantic. Joint Administrations Statement: Defra, DOE, Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth Cymru*
Ar gael oddi wrth www.llyw.cymru

ddefnyddio amrediad ehangach o offerynnau polisi a mecanweithiau cyflenwi i adeiladu gwydnwch y rhwydwaith yn hytrach nag ar sail safle unigol. Bydd hyn yn cynnwys gweithio gydag Awdurdodau Tirweddau Dynodedig Cymru i brofi a datblygu dulliau newydd o gadwraeth natur ar raddfa tirwedd, gan weithio y tu hwnt i ffiniau safleoedd gwarchodedig i adeiladu gwydnwch ecosystemau a chysylltedd ehangach, a bydd hefyd yn tynnu ar y dull blaengar sydd eisoes yn cael ei weithredu yn yr amgylchedd morol i ddylunio rhwydwaith ecolegol gydlynol o Ardaloedd Morol Gwarchodedig.

## Yn ymarferol: Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig

**Diben Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yw cadwraeth enghreifftiau cynrychioliadol o'r amrediad llawn o fathau o gynefinoedd, rhywogaethau a nodweddion daearegol ym Mhrydain Fawr. Dyma ein prif fath o ddynodiad safle gwarchodedig ar gyfer bioamrywiaeth a chadwraeth geoamrywiaeth. Mae Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yn rhan o gyfres ar draws Prydain a ddewiswyd yn unol â chanllawiau a gyhoeddwyd (ac a ddiweddarwyd yn ddiweddar) gan y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur. Gan fod gennym ddyletswydd i ddynodi (hysbysu) unrhyw dir neu flaendraeth rydym yn ystyried ei fod o ddiddordeb arbennig yn unol â'r canllawiau dethol yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru amrediad o bwerau i reoleiddio gweithrediadau sy'n debygol o ddifrodi Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ac i weithio gyda thirfeddianwyr i sicrhau rheolaeth ffafriol drwy drefniadau rheoli contractau. Rydym hefyd yn cynghori awdurdodau cynllunio lleol ac eraill ar osgoi a lliniaru difrod i Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig o ganlyniad i ddatblygiad a seilwaith. Mae mwy na 1,072 o Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yng Nghymru, gan orchuddio oddeutu 12% o arwynebedd y wlad. Prif ddiben Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yw cadwraeth natur, ond mae'r rhan fwyaf o safleoedd mewn perchenogaeth breifat ac yn destun amrediad o ddefnyddiau tir, gan gynnwys amaethyddiaeth, coedwigaeth, defnydd hamdden a rheoli adnoddau dŵr. Gwnaeth adroddiad a gomisiynwyd gan DEFRA yn 2011 amcangyfrif fod gwerth y gwasanaethau ecosystemau a ddarperir gan y gyfres o Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yng Nghymru rhwng £130 a £230 miliwn, yn ychwanegol at eu buddion uniongyrchol ar gyfer cadwraeth natur.**



[6] GHK Consulting (2011) The benefits of Sites of Special Scientific Interest. Adroddiad i Defra, ar gael oddi wrth http://randd.defra.gov.uk/

- Gweithio tuag at gyrraedd statws cadwraeth ffafriol ar gyfer cynefinoedd a rhywogaethau, gan gydnabod bod hyn yn golygu cael nodweddion y safleoedd gwarchodedig mewn cyflwr ffafriol o fewn eu tirwedd neu leoliad morlun, a mynd i'r afael â phwysau ar statws cadwraeth cynefinoedd a rhywogaethau yn yr amgylchedd morol a daearol ehangach. Bydd hyn yn cynnwys archwilio cyfleoedd ar gyfer rheoli safleoedd gwarchodedig yng Nghymru er mwyn cyfrannu at gyflawni targedau rhyngwladol ar gyfer adfer ecosystemau.[6]

- Symud ymlaen gyda dynodi safleoedd newydd ar dir, dyfroedd mewnol a'r môr, neu addasu neu ymestyn safleoedd sy'n bodoli eisoes, lle y bo angen clir, gan sefydlu blaenoriaethau yng ngoleuni buddiannau a risgiau i fioamrywiaeth, geoamrywiaeth a gwydnwch ecosystemau. Bydd hyn yn cynnwys adolygu'r gyfres o safleoedd daearol gwarchodedig yng ngoleuni canllawiau'r DU ar gyfer dethol Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (sy'n cael eu hadolygu a'u diweddaru ar hyn o bryd gan y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur) i sicrhau bod gennym y rhwydwaith cywir o safleoedd i gynnal a gwella bioamrywiaeth ac adeiladu gwydnwch ecosystemau.

- Parhau i gynnal safon uchel o ran diogelu a rheoli safleoedd gwarchodedig, gan gynnwys trwy ystyried ffyrdd o gydnabod a gwobrwyo arfer da, a, lle y bo safleoedd yn cael eu difrodi'n anghyfreithlon, cymryd camau gorfodi sy'n gymesur ac yn unol â'n hegwyddorion rheoleiddiol, gan geisio adfer safleoedd a ddifrodwyd lle bynnag y bo'n bosibl.

- Defnyddio'r cymysgedd priodol o fesurau ar gyfer dynodi, diogelu a rheoli safleoedd gwarchodedig a'r môr a chefn gwlad ehangach, i sicrhau bod cydlyniad y rhwydwaith o safleoedd yn cael ei gynnal. Gallai hyn gynnwys tynnu hysbysiadau Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yn gyfan gwbl neu'n rhannol lle nad oes unrhyw bosibilrwydd o'u hadfer, ac, os caiff safle ei dynnu, cymryd camau i sicrhau nad oes unrhyw golled net i fioamrywiaeth, megis drwy ddynodi safleoedd ychwanegol posibl neu ffurfiau eraill o ymyriad.

- Defnyddio'r blaenoriaethau a amlinellwyd yn y Fframwaith o Gamau Gweithredu a Flaenoriaethwyd ar gyfer Natura 2000 er mwyn llywio buddsoddiad adnoddau ar safleoedd gwarchodedig daearol a morol, gan weithio i ddod o hyd i gyllid i gyflenwi'r camau gweithredu a nodwyd yn y Cynlluniau Gwella a Flaenoriaethwyd a'r Cynlluniau Gweithredu Thematig mewn ffordd systematig. Byddwn ni hefyd yn adolygu cydbwysedd ein hymdrechion ac adnoddau a ddefnyddiwyd ar safleoedd Natura 2000 a'r rhwydwaith ehangach o safleoedd gwarchodedig.

- Adolygu sut rydym yn cyflawni ein rolau rheoleiddiol mewn perthynas â Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a rhywogaethau a warchodir, i sicrhau ein bod yn cyflenwi gwasanaeth trwyadl, llyfn ac effeithiol, sy'n gyson â'n hegwyddorion rheoleiddiol a rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, wrth gydnabod y blaenoriaethau a chyfyngiadau cymhleth sy'n aml yn cystadlu â'i gilydd ar gyfer tirfeddianwyr a rheolwyr.

- Archwilio cyfleoedd ar gyfer partneriaethau strategol gyda busnesau a thirfeddianwyr mawr fel cwmnïau cyfleustodau ac elusennau cadwraeth, lle y gallai safleoedd gwarchodedig o dan berchenogaeth neu reolaeth sefydliadau o'r fath gael eu rheoli'n fwy effeithiol i gyflenwi cadwraeth nodweddion bioamrywiaeth neu geoamrywiaeth ochr yn ochr â darparu buddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol eraill.

---

[7] Gweler 'targed Aichi' rhif 15, o dan y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol, i adfer o leiaf 15% o ecosystemau diraddiedig. Ar gael oddi wrth www.cbd.int

[8] *Ein hegwyddorion rheoleiddiol* Ar gael oddi wrth www.cyfoethnaturiol.cymru

[9] *Fframwaith Camau Gweithredu a Flaenoriaethwyd ar gyfer safleoedd Natura 2000.* Ar gael oddi wrth www.lly.cymru

- Adolygu ein cyfres o Warchodfeydd Natur Cenedlaethol i ymgorffori'r egwyddorion cytunedig ar gyfer Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol a nodi unrhyw safleoedd y gallai elwa ar drefniadau rheoli posibl eraill (er enghraifft, trosglwyddo cyfrifoldeb oddi ar Cyfoeth Naturiol Cymru i gyrff eraill), unrhyw safleoedd y dylai gael eu dad-ddynodi am nad ydynt yn bodloni'r safon ofynnol ac ni allant wneud hynny, ac ystyried safleoedd newydd posib i wella cynrychiolaeth mathau allweddol o gynefin o fewn y gyfres o Warchodfeydd Natur Cenedlaethol.

## Yn ymarferol: Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol

Mae 76 o Warchodfeydd Natur Cenedlaethol yng Nghymru, sy'n amrywio o ran maint o lai na un hectar i bron i 8,000 o hectarau. Maent yn cwmpasu amrywiaeth eang o gynefinoedd a thirweddau, gan gynnwys mynyddoedd a rhostiroedd, coetiroedd, corsydd a ffeniau, glaswelltiroedd iseldir, twyni tywod, ac aberoedd ac ynysoedd. Wedi'u rheoli'n bennaf gan Cyfoeth Naturiol Cymru, Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol yw'r unig fath o safle gwarchodedig yng Nghymru lle y bo cadwraeth natur yn brif ddefnydd tir, ond mae'r ddarpariaeth mynediad ar gyfer hamdden, addysg ac astudiaeth wyddonol o bwysigrwydd allweddol, gyda Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol yn denu miloedd o ymwelwyr bob blwyddyn. Rydym wedi datblygu cyfres o 12 o egwyddorion craidd ar gyfer Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol yng Nghymru, gan adlewyrchu eu cyfraniad i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a'r nodau llesiant:

- Safleoedd pwysig cenedlaethol ar gyfer bioamrywiaeth a geoamrywiaeth
- Cadwraeth natur yw'r prif ddefnydd tir
- Enghreifftiau patrymol o arfer da mewn rheoli cadwraeth
- Mynediad cyhoeddus a mwynhad ar gyfer pobl o bob gallu
- Dehongli, addysg a dangos arferion rheoli cadwraeth da
- Cyfranogiad rhanddeiliaid a'r gymuned leol
- Wedi'u rheoli gan sefydliadau priodol, a allai gynnwys partneriaethau strategol
- Cyfrannu at yr economi leol yn unol ag egwyddorion cyfiawnder cymdeithasol
- Wedi'u rheoli i gyflenwi gwasanaethau ecosystemau
- Wedi'u rheoli'n ddiogel yn yr hirdymor
- Cyfleoedd ar gyfer astudio ac ymchwil
- Wedi'u rheoli'n gyson â dull rheoli ar lefel yr ecosystem o dan Gonfensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol 1992



## 4.Gweithio gydag eraill er mwyn cynnal a gwella bioamrywiaeth

Mae twf a datblygiad economaidd yn hanfodol ar gyfer llesiant a llewyrch Cymru, a gall nifer o ffurfiau o weithgaredd economaidd arwain at o leiaf peth effaith leol ar fioamrywiaeth. Fodd bynnag, tra bo newid yn anochel ac mewn rhai achosion yn angenrheidiol er mwyn adeiladu gwydnwch ecosystemau, nid oes angen i golli bioamrywiaeth gyffredinol fod yn ganlyniad anochel datblygiad neu weithgareddau economaidd eraill sy'n defnyddio adnoddau naturiol. Gyda chynllunio a rheoli gofalus, gall gweithgarwch economaidd a datblygiadau hefyd gyflenwi buddion sylweddol ar gyfer bioamrywiaeth, ecosystemau a darpariaeth gwasanaethau ecosystemau.

Mae'r Polisi Adnoddau Naturiol, yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol a'r datganiadau ardal yn darparu sail dystiolaeth gyffredin i integreiddio bioamrywiaeth ar y camau cynharaf o ddatblygu polisi, cynlluniau strategol a phrosiectau ac i helpu i annog dull gofodol strategol a thraws-sectoraidd sy'n canolbwyntio ar integreiddio a mynd i'r afael â materion niferus, gan ganolbwyntio ar ymyriadau a datrysiadau cynnar yn hytrach na dull gweithredu ymatebol sy'n delio â materion ar wahân.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ystyried y dylid gweithredu fesul cam wrth ddatblygu polisïau a chynlluniau sy'n effeithio ar y defnydd o adnoddau naturiol, ac wrth reoli a rheoleiddio datblygiadau a gweithgareddau eraill. Mae hyn yn golygu mai'r flaenoriaeth gyntaf ddylai fod i osgoi difrod i fioamrywiaeth a gweithrediad ecosystemau lle bynnag y bo'n bosibl, a chan gynnwys addasiadau i'r hyn a gynigir, os oes angen. Os nad oes modd osgoi peth niwed ac y gellid cyfiawnhau hynny drwy gydbwyso'r buddiannau mae'r datblygiad neu weithgaredd arall yn eu darparu, dylid wedyn ystyried opsiynau eraill (e.e. polisïau neu ddulliau gwahanol, neu leoliadau gwahanol), lle y byddai llai o niwed, neu ddim niwed o gwbl, i fioamrywiaeth. Os nad oes opsiynau eraill addas yn bodoli ac ni ellir gwaredu neu leihau'r perygl o ddifrod fel arall, dylid cymryd camau i geisio mesurau cydbwyso ar gyfer y difrod.

## Ein nod:

Mae cynnal a gwella bioamrywiaeth ac adeiladu gwydnwch ecosystemau yn ofyniad arferol ar gyfer datblygiadau newydd a rheoleiddio a rheoli'r defnydd o adnoddau naturiol ar draws yr holl sectorau yng Nghymru.

Er mwyn ein helpu i gyflawni'r nod hwn, byddwn yn gwneud y canlynol:

- Gweithio gyda Llywodraeth Cymru a'n partneriaid i ddarparu cyngor ac arweiniad i gefnogi ymgorffori dull gweithredu fesul cam ar gyfer cynllunio, datblygu a rheoleiddio, sy'n manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd ar gyfer gwella, gan geisio enillion bioamrywiaeth lle bynnag y bo'n bosibl, a lleihau niwed na ellir ei osgoi i fioamrywiaeth ac ecosystemau.
- Ceisio manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd cadarnhaol ar gyfer cynnal a gwella bioamrywiaeth drwy ein hymgysylltiad â'r system cynllunio datblygiadau a chyda'r Cynllun Morol Cenedlaethol i Gymru sydd wrthi'n cael ei ddatblygu, gan gynnwys drwy ein rôl fel ymgynghorai ar ddatblygiad y fframwaith cynllunio ei hun ac wrth baratoi cynlluniau, yn ogystal â'n rôl fel ymgynghorai statudol a rheoleiddiwr prosiectau a datblygiadau unigol.
- Defnyddio ein harbenigedd i nodi a chyfathrebu cyfleoedd a buddion ar gyfer hyrwyddo ail-greu ac adfer cynefinoedd naturiol a phoblogaethau bywyd gwyllt, yn arbennig drwy'r broses datganiad ardal..
- Nodi targedau a blaenoriaethau strategol ar gyfer adfer cynefinoedd a rhywogaethau, gan gynnwys drwy weithredu'r cysyniad Statws Cadwraeth Ffafriol, i helpu i sicrhau bod buddsoddiadau o ran enillion bioamrywiaeth ac adeiladu gwydnwch

[9] *Favourable conservation status: UK statutory conservation bodies' common statement*. Ar gael oddi wrth www.jncc.gov.uk

ecosystemau o'r math cywir ac yn cael eu gwneud yn y lleoliadau cywir.

- Pwysleisio gwella cysylltedd ecolegol ar raddfa tirwedd/morlun a lleihau darnio cynefinoedd fel blaenoriaethau wrth ddatblygu dulliau a phrosiectau ar gyfer cynnal a gwella bioamrywiaeth.
- Gweithio gyda phartneriaid allweddol er mwyn gwella cynefinoedd afonydd ledled Cymru, yn arbennig drwy ddatblygu Cynlluniau Adfer Afonydd, gan ddod â thystiolaeth ynghyd o ffynonellau niferus i ddiffinio cyfyngiadau a galluogi blaenoriaethu adnoddau ar gyfer yr effaith orau. Bydd y canolbwynt penodol ar adfer cynefinoedd dirywiedig, gwaredu rhwystrau i gysylltedd ecolegol, a sefydlu eog yr Iwerydd fel rhywogaeth ddangosol allweddol ar gyfer cyflwr ein hafonydd.
- Cyfrannu at ddatblygiad technegau arfer gorau, gan ddatblygu'r sail dystiolaeth a gwella dulliau ecolegol o greu cynefinoedd, adfer cynefinoedd a thrawsleoli rhywogaethau, er mwyn helpu datblygwyr, rheolwyr tir a'u cynghorwyr i ddarparu canlyniadau bioamrywiaeth buddiol sy'n gysylltiedig ag amodau neu rwymedigaethau cynllunio, neu ar gyfer mesurau cydbwyso oddi ar y safle pan na ellir osgoi difrod.
- Gweithredu'r egwyddorion a amlinellir yn natganiad sefyllfa Cyfoeth Naturiol Cymru ar drawsleoliadau cadwraeth wrth ddatblygu'r dull cyffredinol ar gyfer enillion bioamrywiaeth ac wrth gynnig, cynghori, rheoli neu reoleiddio unrhyw gynigion neu brosiectau penodol.
- Gweithio gyda datblygwyr, awdurdodau cynllunio ac ymgynghorwyr amgylcheddol i sicrhau bod canlyniadau ein cyngor o ran cynnal a gwella bioamrywiaeth ac adeiladu gwydnwch ecosystemau yn cael eu cofnodi'n gywir, bod eu heffeithiolrwydd yn ddarostyngedig i fonitro ac asesu, ond hefyd bod y wybodaeth hon yn cael ei rhoi ar gael i eraill er mwyn gwella'r sylfaen wybodaeth a'r adolygiad parhaus o arfer gorau.

## Yn ymarferol: Dull graddfa dalgylch ar gyfer trwyddedu amgylcheddol

**Yn 2014, gwnaeth Cyfoeth Naturiol Cymru roi dull arloesol ar waith i roi trwydded er mwyn galluogi llaethdy masnachol i ddatblygu ei fusnes heb niweidio Ardal Cadwraeth Arbennig. Mae'r llaethdy yn Hwlfforddd – cyflogwr lleol sylweddol – yn prosesu llaeth o ffermydd yn Sir Benfro, gan gynhyrchu elifiant sy'n gyfoethog mewn maethynnau sy'n cael ei ollwng i Afon Cleddau, sydd yn ei dro yn llifo i Aberdaugleddau, rhan o Ardal Cadwraeth Arbennig Forol Sir Benfro. Mae'r dyfroedd arfordirol amgaeedig hyn eisoes o dan bwysau gan gyfoethogiad maethynnau ac mae'r amcanion cadwraeth ar gyfer yr Ardal Cadwraeth Arbennig yn ceisio atal unrhyw gynnydd o ran lefelau maethynnau. Roedd gweithredwyr y llaethdy eisiau cynyddu cynhyrchiant ac adeiladu gwaith trin elifion newydd, a fyddai'n golygu cynyddu eu gollyngiad o faethynnau, a allai arwain at ddirywiad pellach o ran ansawdd y dŵr yn yr afon a'r Ardal Cadwraeth Arbennig. Fodd bynnag, roedd modd i Cyfoeth Naturiol Cymru gyflwyno trwydded, gan gysylltu'r cydsyniad gollwng ar gyfer y gwaith trin newydd yn uniongyrchol â gofyniad ar y ffermydd o fewn yr un dalgylch afon sy'n cyflenwi llaeth i'r llaethdy i leihau eu mewnbynnau maethynnau i'r nentydd sy'n llifo i Afon Cleddau. Wrth i bob fferm ymuno â'r cynllun a mabwysiadu dulliau ffermio gwahanol, megis rheoli slyri gwartheg yn well, mae'r llwyth maethynnau sy'n mynd i mewn i'r afonydd yn lleihau'n fesul tipyn a gellir cynyddu'r gollyngiad o'r llaethdy heb unrhyw gynnydd net o ran mewnbynnau maethynnau i'r Ardal Cadwraeth Arbennig.**



## 5. Bod â'r dystiolaeth gywir i lywio ein gwaith

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn sefydliad sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Mae hyn yn golygu bod angen i ni fod â'r dystiolaeth gywir i lywio ein camau gweithredu ac ymyriadau fel rheoleiddiwr, ymgynghorydd, rheolwr tir, galluogwr ac ymatebwr. Mae angen i ni weithio gydag eraill gan ddefnyddio sail tystiolaeth gyffredin, rhannu ein data a gwybodaeth gyda phartneriaid, a gwneud defnydd priodol o ddata a gwybodaeth a ddarperir gan eraill.

In order to enable us to focus our effort Er mwyn ein galluogi i ganolbwyntio ein hymdrechion ac adnoddau yn fwyaf effeithiol, ac i roi cyngor cadarn, cymesur ac amserol i eraill, mae angen i ni ddeall natur ac achosion newid amgylcheddol, a'r ffactorau sy'n effeithio ar fioamrywiaeth a gwydnwch ecosystemau, yn gadarnhaol ac yn negyddol. Mae hefyd angen i ni allu asesu effaith ein hymyriadau, ac ymyriadau eraill, fel ein bod yn canolbwyntio ein hymdrechion ar yr hyn sy'n gweithio, a pheidio â gwneud yr hyn nad yw'n gweithio..

Mae gennym raglen waith sy'n canolbwyntio ar dystiolaeth bioamrywiaeth, gan gynnwys monitro nodweddion safleoedd gwarchodedig, dadansoddi, dehongli, rheoli a rhannu data, a chyngor ar gyfer cefnogi gwneud penderfyniadau. Mae gennym raglen estynedig hefyd ar gyfer casglu tystiolaeth yn ymwneud ag ansawdd dŵ r ac adnoddau dŵr yng Nghymru. Yn ogystal â bod yn gynhyrchydd tystiolaeth sylweddol, rydym hefyd yn dibynnu'n drwm ar dystiolaeth a gynhyrchwyd gan eraill, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur, cyrff anllywodraethol, sefydliadau ymchwil a'r sector preifat. Mae meddu ar y sail dystiolaeth gywir yn golygu sicrhau mynediad i'r dystiolaeth a gasglwyd ac a ddaliwyd gan eraill, yn ogystal â bod â'r ffocws cywir ar gyfer ein rhaglenni casglu tystiolaeth ein hunain. as having the right focus for our own evidence gathering programmes.

### Ein nod:

Meddu ar sail dystiolaeth gadarn ac agored sy'n caniatáu i'n timoedd ein hunain a sefydliadau o unrhyw faint roi rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy ar waith, gan gynnwys y gallu i fesur, deall a chyfathrebu achosion newid amgylcheddol a'r cyfleoedd i wella bioamrywiaeth, adeiladu gwydnwch ecosystemau, a chynnal a gwella'r buddion maent yn eu darparu..

---

### Yn ymarferol: Dull gweithredu cydgysylltiedig ar gyfer gwybodaeth a thystiolaeth yn Cyfoeth Naturiol Cymru

**Mae gwybodaeth yn sail i gyflawni holl swyddogaethau Cyfoeth Naturiol Cymru yn llwyddiannus. Ymgorfforwyd yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ein bod yn cymhwyso dull rheoli amgylchedd Cymru sy'n seiliedig ar dystiolaeth, er budd pobl Cymru. Mae cyflenwi rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, ac ymgorffori bioamrywiaeth, geoamrywiaeth a gwydnwch ecosystemau yn effeithiol i'n holl swyddogaethau, yn ei gwneud yn arbennig o bwysig fod gennym ddull cydgysylltiedig ar gyfer sut rydym yn dal, rheoli a lledaenu gwybodaeth ac, yn hanfodol, ein bod ni a'n partneriaid yn gallu gweld a dadansoddi'r sail dystiolaeth hon mewn ffordd gyfannol sy'n cefnogi gwneud penderfyniadau yn gydgysylltiedig. Rydym yn gweithio i gasglu ynghyd yr holl wybodaeth a geir gan gyrff etifeddiaeth Cyfoeth Naturiol Cymru. Rydym hefyd yn datblygu seilwaith technegol i ganiatáu i staff a phartneriaid gael mynediad at y sail wybodaeth hon mewn un lleoliad fel bod ein holl ddata, adroddiadau, mapiau, a mathau eraill o wybodaeth ar gael ac yn hygyrch yn hawdd i bawb sydd eu hangen.**

## Yn ymarferol: Ailgyflwyno rhywogaethau

**Mae rhai rhywogaethau o dan fygythiad yn elwa ar reoli cynefin penodol a lleol ar raddfa fach. Er enghraifft, mae prosiectau diweddar i hybu poblogaethau mursen las Penfro mewn safleoedd amrywiol ledled Cymru wedi canolbwyntio ar agor cynefinoedd nentydd a ffosydd sydd wedi cael eu tagu gan lystyfiant i ddarparu amodau mwy addas ar gyfer y rhywogaeth. Defnyddiwyd cloddwyr mecanyddol ar Fynydd Preseli yn Sir Benfro i ehangu nentydd a chreu pyllau a sianeli ychwanegol, tra bo gwaith ar raddfa lai i glirio ffosydd wedi'i wneud â llaw yn Ardal Cadwraeth Arbennig Cors Erddreiniog ar Ynys Môn.Pan fo difodiant gwirioneddol rhywogaeth wedi digwydd ar lefel leol neu ranbarthol, mae angen cynlluniau manwl a gofalus i sicrhau ei bod yn cael ei hailgyflwyno'n llwyddiannus ac mewn modd cynaliadwy. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru a'i gyrff rhagflaenol wedi gweithio dros gyfnod o 20 mlynedd mewn partneriaeth â Natural England, cyrff anllywodraethol ac awdurdodau lleol i ailsefydlu poblogaethau madfall y tywod a llyffant y twyni'n llwyddiannus ar hyd arfordir gogledd Cymru.**



J Foster / Arc

Er mwyn ein helpu i gyflawni'r nod hwn, byddwn yn gwneud y canlynol:

- Datblygu ein dealltwriaeth o'r cysyniad o wydnwch ecosystemau a ffyrdd o'i asesu, a datblygu'r data a'r sail dystiolaeth i gefnogi'r ddealltwriaeth honno, gan gydnabod pwysigrwydd allweddol asesu cyflwr bioamrywiaeth wrth ddiffinio ac asesu gwydnwch ecosystemau a sut y gallai newid dros amser..

- Gwneud defnydd priodol o'r fframweithiau asesu ac adrodd hen sefydledig fel Statws Cadwraeth Ffafriol, Statws Ecolegol Da a Statws Amgylcheddol Da, fel y'u defnyddir o dan gyfarwyddebau'r UE, wrth ddatblygu fframwaith newydd ar gyfer diffinio ac asesu gwydnwch ecosystemau. .

- Chwilio am gyfleoedd i wneud y defnydd gorau o ddulliau arloesol a chost effeithiol ar gyfer casglu tystiolaeth amgylcheddol, gan gynnwys technegau arsylwi'r Ddaear a gwyddoniaeth dinasyddion, i wella'r sail dystiolaeth, a chaniatáu i ni gasglu data'n fwy effeithiol..

- Cyflwyno tystiolaeth ar fioamrywiaeth drwy'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol ac yng nghyd-destun ehangach tystiolaeth ar reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, gan helpu i gysylltu gwybodaeth am ecosystemau, eu gwydnwch a'r buddion maent yn eu darparu i'r nodau llesiant, a chan gyflwyno tystiolaeth ar y graddfeydd gofodol a thymhorol cywir. Bydd hyn yn cynnwys tynnu oddi ar brofiadau

a phersbectifau eraill wrth gasglu a chyfathrebu ein tystiolaeth yn effeithiol, o fewn Cyfoeth Naturiol Cymru a chyda phartneriaid allanol.

- Defnyddio ein dylanwad ac arbenigedd sy'n benodol i Gymru i helpu i lywio a chynghori ar gynlluniau gwyliadwriaeth rhywogaethau ar draws y DU (er enghraifft, mewn perthynas ag adar, gloÿnnod byw, ystlumod a mamaliaid morol) a mentrau newydd fel Rhaglen Monitro a Modelu'r Amgylchedd a Materion Gwledig Llywodraeth Cymru a datblygu dulliau arsylwi'r Ddaear, fel y gall cynlluniau o'r fath ddarparu cyfran gynyddol o'r sail dystiolaeth ehangach sy'n angenrheidiol ar gyfer rheoli adnoddau naturiol Cymru yn unol ag egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.
- Canolbwyntio ar fuddsoddi adnoddau Cyfoeth Naturiol Cymru ar gynnal gwaith monitro bioamrywiaeth ar y safleoedd dynodedig yng Nghymru ac ardaloedd rydym yn berchen arnynt neu'n eu rheoli sydd o fudd sylweddol i fioamrywiaeth.
- Dylunio ein gwaith casglu a monitro tystiolaeth o amgylch asesu'r cyflwr a'r tueddiadau, gan uchafu ei werth felly wrth lywio penderfyniadau ar sut, pryd a ble y dylem ni ac eraill ymyrryd. Bydd hyn yn cynnwys defnydd priodol o ddulliau symlach o gasglu a dadansoddi tystiolaeth, gan weithredu'r egwyddor o 'gasglu unwaith, defnyddio'n aml' a derbyn adroddiadau dangosol pan fo'n cynrychioli'r defnydd gorau o adnoddau cyfyngedig.
- Datblygu dull strategol sy'n seiliedig ar risg ar gyfer ein gwaith monitro ar safleoedd gwarchodedig (daearol, dŵr croyw a morol), yn unol â'r adolygiadau diweddar o'n gweithgareddau monitro, tystiolaeth ac adrodd. Bydd hwn yn canolbwyntio ar gasglu'r dystiolaeth sydd ei hangen arnom i reoli safleoedd yn effeithiol a'r ffactorau sy'n effeithio arnynt, a bydd yn cynnwys edrych ar sut y gallwn fonitro ar draws y gyfres ehangach o safleoedd gwarchodedig yng Nghymru, yn hytrach na chanolbwyntio ar Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig yn unig.
- Parhau i weithio gydag asiantaethau cadwraeth natur eraill yn y DU i ddiweddaru'r canllawiau Monitro Safonau Cyffredin, sy'n darparu fframwaith technegol ar gyfer monitro safleoedd gwarchodedig ar draws y DU.
- Lle bynnag y bo'n briodol, sicrhau bod gwaith monitro a chasglu tystiolaeth yn cael ei ymgorffori i bob math o ymyriadau rydym yn eu gwneud a bod tystiolaeth o'r fath yn cael ei dal a'i chynnal mewn fformatau sy'n hawdd cael mynediad atynt, fel y gallwn asesu effeithiolrwydd yr ymyriadau, datblygu arfer da a rhannu gwybodaeth.
- Manteisio i'r eithaf ar y defnydd o'n ffynonellau data cynefinoedd a rhywogaethau cyfoethog, ac addasu rhaglenni tystiolaeth fel ein bod yn defnyddio, casglu a chyflwyno tystiolaeth mewn ffyrdd newydd sy'n dylanwadu ar ac yn cefnogi rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, diwallu anghenion tystiolaeth a flaenoriaethwyd o'r bylchau a nodwyd drwy'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol a'r broses datganiad ardal, ac y gellir eu defnyddio fel dangosyddion cynnydd lle y bo'n briodol.
- Parhau i ddatblygu a defnyddio dulliau cydweithredol o ddarparu data, ymchwil a monitro, gan weithio gyda phartneriaid sy'n cynnwys y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur, prifysgolion a chyrff ymchwil eraill.

## 6. Buddsoddi yng ngwybodaeth a sgiliau ein staff

Mae staff Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithio ar draws amrediad amrywiol o swyddogaethau, sy'n amrywio o gefnogi a galluogi gwasanaethau fel cynllunio corfforaethol, cyllid a rheoli gwybodaeth, i swyddogaethau rheng flaen fel ymateb i ddigwyddiadau, trwyddedu, rheoli ystadau, gorfodi ac ymgysylltu â'r cyhoedd, gydag amrediad eang o arbenigwyr technegol yn eu plith, gan gynnwys biolegwyr, daearegwyr, ecolegwyr, cynllunwyr, economegwyr, peirianwyr a chyfreithwyr. Fel sefydliad cymhleth gydag adnoddau cyfyngedig, mae'n rhaid i ni ddod o hyd i'r cydbwysedd cywir yn gyson wrth ddefnyddio'r amrediad o ddyletswyddau a phwerau statudol sydd gennym i gyflawni ein rolau niferus.

Mae arbenigedd bioamrywiaeth a chadwraeth natur Cyfoeth Naturiol Cymru yn cael ei werthfawrogi a'i barchu ledled Cymru, y DU a thu hwnt. Cawn ein gweld, ac rydym yn gweld ein hunain, fel prif ddarparwr cyngor arbenigol o ansawdd uchel, yn fewnol wrth ymgysylltu â'n swyddogaethau rheoleiddiol a gweithredol ein hunain, ac yn allanol wrth gefnogi ein partneriaid. Her allweddol ar gyfer ymgorffori rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a'r ddyletswydd bioamrywiaeth ar draws Cyfoeth Naturiol Cymru yw arfogi ein holl staff gyda'r dulliau o gymhwyso eu gwybodaeth a'u sgiliau penodol yn effeithiol ac yn hyderus er mwyn bodloni'r nod a rennir o wella gwydnwch ecosystemau a llesiant.

### Ein nod:

Mae gan staff Cyfoeth Naturiol Cymru y wybodaeth, y sgiliau, yr ymrwymiad a'r cymorth i gyflawni ein hamcanion ar gyfer bioamrywiaeth a gwydnwch ecosystemau ac rydym yn rhagori ar ysbrydoli a galluogi tirfeddianwyr, arweinwyr busnes a grwpiau cymunedol i wneud yr un peth. Mae ein harbenigedd yn cael ei werthfawrogi, ei rannu a'i gynyddu gyda chymuned o ymarferwyr blaenllaw, sy'n debyg o ran eu meddylfryd, o amgylch y byd.

Er mwyn ein helpu i gyflawni'r nod hwn, byddwn yn gwneud y canlynol:

- Gweithio o fewn holl swyddogaethau ein sefydliad ar bob lefel, er mwyn gwella ein dealltwriaeth o fioamrywiaeth a phwysau a chyfleoedd gwydnwch ecosystemau, eu rôl o fewn rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, a'n dyletswyddau statudol.
- Datblygu ein sgiliau a'n harbenigedd ehangach yn ymwneud â rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy ac archwilio ffyrdd arloesol o ddod â staff gydag arbenigeddau gwahanol ynghyd i weithio'n gydweithredol ar draws swyddogaethau a sectorau gwahanol.
- Cydnabod, gwerthfawrogi a hybu cyfoeth o arbenigedd ar faterion bioamrywiaeth sydd gennym o fewn y sefydliad, gan gefnogi a galluogi staff i gymhwyso'r sgiliau a'r wybodaeth hynny i'r effaith orau, a buddsoddi mewn cynnal a datblygu'r arbenigedd hwnnw yn yr hirdymor.

- Datblygu ein gwaith rhwydweithio, rhannu syniadau a chyfleoedd ar gyfer cydweithio ag ymarferwyr mewn rhannau eraill o'r DU, Ewrop a thu hwnt, gan gydnabod na fydd gennym o reidrwydd yr holl sgiliau a gwybodaeth angenrheidiol, neu eu hangen, o fewn y sefydliad ac y bydd angen i ni wneud defnydd o arbenigedd a phrofiad eraill.
- Datblygu ein sgiliau a'n dulliau cyfathrebu ynglŷn â bioamrywiaeth a gwydnwch ecosystemau mewn ffyrdd a chan ddefnyddio iaith sy'n ysbrydoli ac yn cefnogi ein partneriaid.
- Meddu ar gynllun ac ymrwymiad clir i gynnal gwybodaeth a sgiliau o fewn y sefydliad, gan gynnwys drwy gynllunio dilyniant, hyfforddiant a chefnogi datblygiad staff.
- Datblygu ein gwaith cyfathrebu, rhwydweithio a gweithio ar y cyd ymhellach ar draws ein swyddogaethau gwahanol, a rhwng rhannau gwahanol o Gymru, gan barhau i adeiladu perthnasau cadarnhaol a gwybodaeth a dealltwriaeth a rennir rhwng swyddogaethau ac felly chwalu gwahaniaethau proffesiynol a diwylliannol.
- Cydnabod a datrys amcanion a blaenoriaethau polisi mewnol sy'n cystadlu neu wrthdaro, a sicrhau nad yw timau gwahanol yn gweithio mewn cyfeiriadau gwrthwynebus, gan geisio datrysiadau cytbwys sy'n hybu ecosystemau gwydn fel gofyniad sylfaenol ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.
- Pan fo angen, sicrhau bod polisi bioamrywiaeth a gwydnwch ecosystemau, datganiadau sefyllfa, arweiniad ac arferion gorau ar gael i staff, gan roi arweiniad a chyfeiriad clir ar faterion allweddol sy'n effeithio ar Gymru.

## Yn ymarferol: Adfer glaswelltir sy'n Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig i gyflenwi buddion lluosog

**Mae angen i'r rhan fwyaf o'n glaswelltiroedd iseldir ar Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig gael eu rheoli'n weithredol a'u pori gan dda byw er mwyn cynnal eu bioamrywiaeth nodweddiadol. Roedd pori ar Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ar Ynys Môn wedi dirywio'n gynyddol tan fod y safle wedi'i adael a heb ei reoli am nifer o flynyddoedd. Roedd hyn wedi caniatáu i brysg, gordyfiant a rhywogaethau goresgynnol ymledu. Yna cafodd y tir ei rentu i gangen leol Sefydliad y Sgowtiaid i'w ddefnyddio at eu dibenion hamdden awyr agored ac addysg. Gwnaeth Cyfoeth Naturiol Cymru sefydlu cytundeb rheoli gyda nhw, a oedd yn rhoi cyllid Cyfoeth Naturiol Cymru i glirio'r prysg, torri'r glaswelltir a oedd wedi gordyfu, a chychwyn ar reoli jac y neidiwr. Gwnaeth Sefydliad y Sgowtiaid hefyd roi eu hamser a'u harian eu hunain i'r prosiect. Gwnaethom hefyd drafod cynllun rheoli ar gyfer y safle er mwyn caniatáu iddo gael ei bori pan nad oedd yn cael ei ddefnyddio gan y Sgowtiaid ar gyfer gwersylla. Roedd hyn hefyd yn darparu ar gyfer torri'r ardaloedd sychach ar gyfer creu gwair, o leiaf ar y dechrau, er mwyn lleihau'r lefelau maethynnau ac atal aildyfiant y prysg a'r mieri. Mae'r cytundeb yn cyflenwi buddiannau bioamrywiaeth, o ran gwella cyflwr nodweddion y Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, ac yn darparu safle i'r Sgowtiaid lle y gallant wersylla, chwarae gemau awyr agored, a mynd i'r afael â phrosiectau amgylcheddol sy'n cyflenwi buddiannau iechyd a llesiant ar gyfer grwpiau lleol. Yn ogystal, mae'r prosiect wedi adfer ardal a oedd yn anaddas ar gyfer da byw i bori i gyflwr lle y gellir pori arno eto.**



# Darparu adnoddau ar gyfer y gwaith hwn

Bydd cyflawni'r nodau rydym yn eu hamlinellu uchod yn heriol. Fel yr holl gyrff cyhoeddus yng Nghymru, rydym mewn cyfnod o adnoddau sy'n dirywio. Tra ein bod yn cynhyrchu peth incwm o'n taliadau, gwerthiant pren a darparu gwasanaethau eraill, mae ein lefelau o gymorth grant, adnoddau staff a chyllidebau wedi bod yn dirywio ers i Cyfoeth Naturiol Cymru gael ei sefydlu yn 2013, a disgwylir iddynt barhau i wneud hynny.

Byddwn ni'n archwilio cyfleoedd newydd i weithio mewn partneriaeth gydag eraill tuag at ganlyniadau a rennir, yn hytrach na chymryd yn ganiataol y bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn cyflawni'r holl nodau uchelgeisiol hyn ar ei ben ei hun. Rydym eisoes yn gweithio mewn partneriaeth gydag eraill ar draws llawer o feysydd ein gwaith, ac mae cyfleoedd pellach i weithio gyda chymunedau lleol, rheolwyr tir, busnesau, cyrff cyhoeddus eraill a chyrff anllywodraethol.

Mae llawer o'r hyn y mae angen i ni ei wneud yn ymwneud â gwneud pethau mewn ffordd wahanol. Gallai olygu newid ein hagweddau, diwylliant sefydliadol, pwyslais a ffyrdd o weithio ac nid yw o reidrwydd yn golygu gwneud mwy, ond mae'n golygu gwneud pethau mewn ffordd wahanol. Mae peth o'r gwaith a amlinellir o dan y themâu uchod yn ymwneud â buddsoddi i arbed, fel ein bod yn dod yn fwy effeithiol yn y dyfodol.

Byddwn ni'n archwilio ffyrdd o greu mwy o incwm o'n gwaith bioamrywiaeth – er enghraifft, drwy ddatblygu cynlluniau Talu am Wasanaethau Ecosystemau (TWE), edrych ar ein cynlluniau codi tâl, a gwella ein mynediad at ffynonellau cyllid allanol.

Mewn rhai achosion, gallai fod angen i ni beidio â gwneud rhai pethau rydym yn eu gwneud nawr, er mwyn canolbwyntio ar wneud enillion mwy yn y dyfodol. Ni allwn gyflenwi popeth ymhob man.

Rydym yn gwybod y bydd troi ein uchelgeisiau yn gamau gweithredu a chanlyniadau gwirioneddol yn gofyn i ni fynd i'r afael â chwestiynau ynglŷn â'r adnoddau angenrheidiol ac, o dro i dro, gwneud penderfyniadau anodd am ein blaenoriaethau. Bydd y cyfraddau cynnydd yn amrywio'n sylweddol ar draws y gwahanol feysydd gwaith niferus a amlinellir uchod.

# Y camau nesaf

Mae'r ddogfen hon yn cynrychioli datganiad o'n dyheadau, y cyfeiriad rydym yn bwriadu teithio tuag ato, a'n ffyrdd o weithio wrth gyflawni ein dyletswydd bioamrywiaeth a gwydnwch ecosystemau o dan Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

Mae Cynllun Corfforaethol Cyfoeth Naturiol Cymru yn ein hymrwymo i ddatblygu, gyda'n staff a'n rhanddeiliaid, weledigaeth hirdymor a rennir ar gyfer amgylchedd naturiol Cymru hyd at 2050. Byddwn ni'n defnyddio'r cyfeiriad strategol hwn ar gyfer ein gwaith bioamrywiaeth fel sail a chatalydd ar gyfer trafodaethau â staff a rhanddeiliaid ynglŷn â sut mae'r weledigaeth honno yn mynd i'r afael â bioamrywiaeth a gwydnwch ecosystemau a beth sydd angen ei wneud i'w chyflawni.

Nid yw'r chwe maes gweithredu a amlinellir uchod yn rhai digyfnewid ond maent yn cynrychioli dechrau proses ailadroddol sy'n adeiladu ar y dystiolaeth a'r wybodaeth orau sydd ar gael i Gymru wrth gyflenwi'r Cynllun Gweithredu Adfer Natur a'r Polisi Adnoddau Naturiol, yn unol â'n diben, dyletswyddau a ffyrdd o weithio. Yn ogystal â gosod agenda bioamrywiaeth Cyfoeth Naturiol Cymru, gallai nifer o'r meysydd gweithredu hyn fod yn berthnasol i gyrff eraill wrth gyflawni eu dyletswyddau o dan Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a chydweithio er mwyn cyflenwi'r Cynllun Gweithredu Adfer Natur.

Bydd angen i'r meysydd gweithredu hyn gael eu hymgorffori i'n prosesau cynllunio busnes blynyddol. Byddant yn cael eu trosi'n rhaglenni gwaith blynyddol manylach a flaenoriaethwyd, gydag adnoddau wedi'u clustnodi a chanlyniadau, cyfrifoldebau a cherrig milltir a ddiffiniwyd yn glir.

# Atodiad 1 Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Fframwaith polisi a chyfreithiol

Yn erbyn cefndir bioamrywiaeth sy'n dirywio a bygythiadau i wasanaethau ecosystemau hanfodol sy'n cynnal ein heconomi a chymdeithas, mae gan Gymru fframwaith polisi a chyfreithiol newydd ar gyfer dull newydd o ymateb i'r heriau amgylcheddol yr ydym yn eu hwynebu yn yr 21ain ganrif.

Mae'r fframwaith newydd wedi'i adeiladu ar gydnabod yn eglur – yn gyfreithiol – y rhyngddibyniaethau rhwng bioamrywiaeth, gwydnwch ecosystemau, yr amrediad o wasanaethau ecosystemau y mae ecosystemau ac adnoddau naturiol yn eu darparu, a llesiant cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol. Wrth wraidd y dull newydd hwn mae'r egwyddor fod bioamrywiaeth a gwydnwch ecosystemau yn hanfodol ar gyfer ein llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ac felly mae angen iddynt fod wrth wraidd yr holl benderfyniadau ynglŷn â sut mae adnoddau naturiol Cymru yn cael eu defnyddio a'u rheoli

### Beth rydym yn ei olygu wrth adnoddau naturiol?

Mae adnoddau naturiol yn cael eu diffinio yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 fel rhai sy'n cynnwys: a) Anifeiliaid, planhigion ac organebau eraill; b) Aer, dŵr a phridd; c) Mwynau; ch) Nodweddion a phrosesau daearegol; d) Nodwedd ffisiograffigol; a dd) Nodweddion a phrosesau hinsoddol.

Mae'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer y dull newydd hwn wedi'i amlinellu'n bennaf yn nwy Ddeddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** yn anelu at hybu llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol pobl Cymru, o ran cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol. Mae'r Ddeddf yn amlinellu cyfres o nodau llesiant, ac mae'n gosod dyletswydd ar bob corff cyhoeddus, gan gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru, i gyfrannu at gyrraedd y nodau hynny. Cymru gydnerth yw un o'r nodau llesiant hyn, sy'n cael ei ddiffinio yn y Ddeddf fel:

> *"Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach a gweithredol sy'n cynnal gwydnwch cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft, newid yn yr hinsawdd"*

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus osod a chyhoeddi eu hamcanion llesiant. Mae amcanion llesiant Cyfoeth Naturiol Cymru yn cael euhamlinellu yn ein cynllun corfforaethol hyd at 2022.

### Mae amcanion llesiant Cyfoeth Naturiol Cymru fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| **WBO1** | **Hyrwyddo amgylchedd Cymru a rheoli adnoddau naturiol Cymru yn gynaliadwy** |
| **WBO2** | **Sicrhau bod tir a dŵr Cymru yn cael eu rheoli'n gynaliadwy ac mewn modd integredig** |
| **WBO3** | **Gwella gwydnwch ac ansawdd ein hecosystemau** |
| **WBO4** | **Lleihau'r risgiau i bobl a chymunedau o beryglon amgylcheddol megis llifogydd a llygredd** |
| **WBO5** | **Helpu pobl i fyw bywydau mwy iach a bodlon** |
| **WBO6** | **Hyrwyddo busnesau llwyddiannus a chyfrifol sy'n defnyddio adnoddau naturiol heb eu difrodi** |
| **WBO7** | **Datblygu Cyfoeth Naturiol Cymru yn sefydliad rhagorol, sy'n darparu gwasanaeth cwsmeriaid o'r radd flaenaf** |

Mae'r Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi dangosyddion cenedlaethol, y caiff cynnydd tuag at fodloni'r nodau llesiant ei asesu yn eu herbyn.

Mae'r rhestr o 46 dangosydd cenedlaethol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2016 yn cynnwys:

- Ardaloedd o ecosystemau iach yng Nghymru
- Statws amrywiaeth fiolegol yng Nghymru

Prif ddiben **Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016** yw hyrwyddo rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy er mwyn cynnal a gwella gwydnwch ecosystemau a'r buddion maent yn eu darparu, a thrwy wneud hynny ddiwallu anghenion cenedlaethau'r presennol heb beryglu llesiant cenedlaethau'r dyfodol. Mae'r Ddeddf yn sefydlu rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy fel diben craidd statudol Cyfoeth Naturiol Cymru ac mae'n gwneud cysylltiad eglur rhwng rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy agwydnwch ecosystemau a chyrraedd nodau llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn rhoi i Cyfoeth Naturiol Cymru a chyrff cyhoeddus eraill ddyletswydd i geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth a gwydnwch ecosystemau, tra bo Adran 7 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi rhestr o rywogaethau a chynefinoedd o bwysigrwydd pennaf ar gyferbioamrywiaeth a chymryd camau rhesymol i'w cynnal a'u gwella. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi Polisi Cenedlaethol ar Adnoddau Naturiol yn amlinellu'r blaenoriaethau, y risgiau a'r cyfleoedd allweddol ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Mae'n ofynnol i Cyfoeth Naturiol Cymru lunio datganiadau ardal fel mecanwaith allweddol ar gyfer hwyluso gweithredu'r Polisi Adnoddau Naturiol.

Yn ogystal mae'r Deddf yn nodi cyfres o egwyddorion ar gyfer gweithredu rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Mae'n rhaid i Cyfoeth Naturiol Cymru roi'r holl egwyddorion hyn ar waith wrth arfer ei swyddogaethau.

Gyda'i gilydd, mae'r ddwy Ddeddf hyn yn darparu'r sail gyfreithiol ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy fel y fframwaith ar gyfer cymryd camau i fynd i'r afael â'r her o atal a gwrthdroi colli bioamrywiaeth a diogelu gwydnwch ecosystemau a'r buddion i lesiant maent yn eu darparu.

### Rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy

O dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, mae rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn golygu defnyddio adnoddau naturiol mewn ffordd ac ar raddfa sy'n golygu cymryd camau gweithredu sy'n hwyluso – a pheidio â chymryd camau gweithredu sy'n llesteirio – cyrraedd yr amcan o gynnal a gwella gwydnwch ecosystemau a'r buddion maent yn eu darparu, a thrwy wneud hynny ddiwallu anghenion cenedlaethau'r presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion, a chyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.

### Naw egwyddor rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy

- Rheoli addasol
- Graddfa briodol
- Adeiladu gwydnwch
- Cydweithio ac ymgysylltu
- Cyfranogiad y cyhoedd
- Tystiolaeth
- Buddion lluosog a gwerth cynhenid
- Hirdymor
- Camau ataliol

Gan adeiladu ar y fframwaith cyfreithiol newydd hwn, mae Llywodraeth Cymru wedi amlinellu ei hymrwymiadau i fioamrywiaeth yng Nghynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru.11 Mae hwn yn cydnabod mai gofyniad allweddol rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yw sicrhau, drwy'r egwyddor greiddiol o ecosystemau gwydn, y gall Cymru barhau i gyflenwi

[11] *Dangosyddion cenedlaethol Cymru. Ar gael oddi wrth www.llyw.cumru*

ei rhwymedigaethau bioamrywiaeth allweddol yn y DU, yn Ewrop ac yn rhyngwladol – er enghraifft, o dan y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol a chonfensiynau a chytuniadau rhyngwladol eraill.

Mae'r Cynllun Gweithredu Adfer Natur yn tanlinellu pwysigrwydd bioamrywiaeth i lesiant ac yn gosod yr uchelgais a'r amcanion allweddol ar gyfer adfer natur yng Nghymru, sy'n alinio â nifer o egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

**Cynllun Gweithredu Adfer Natur**

**Uchelgais:**
***Gwrthdroi'r dirywiad o ran bioamrywiaeth, oherwydd bod iddi werth cynhenid, a sicrhau budd sy'n para i'r gymdeithas.***

| | |
|---|---|
| **Amcan 1:** | **Ennyn a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth er mwyn i fioamrywiaeth fwrw gwreiddiau yn y broses benderfynu ar bob lefel** |
| **Amcan 2:** | **Diogelu rhywogaethau a chynefinoedd sydd o'r pwys mwyaf a'u rheoli'n well** |
| **Amcan 3:** | **Gwneud ein hamgylchedd naturiol yn fwy gwydn drwy adfer cynefinoedd sydd wedi'u diraddio a chreu cynefinoedd** |
| **Amcan 4:** | **Mynd i'r afael â'r pwysau allweddol ar rywogaethau a chynefinoedd** |
| **Amcan 5:** | **Gwella ein tystiolaeth, ein dealltwriaeth a'n gwaith monitro** |
| **Amcan 6:** | **Rhoi fframwaith llywodraethu a chymorth ar waith i gyflawni'r amcanion** |

Mae'r fframwaith cyfreithiol newydd a dyletswyddau Cyfoeth Naturiol Cymru ac eraill a ddiffinnir yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, ynghyd â'r amrediad o fesurau statudol presennol ar gyfer diogelu a gwella bioamrywiaeth a'r ymrwymiadau a nodwyd gan Lywodraeth Cymru yn y Cynllun Gweithredu Adfer Natur, yn creu cyfle trawsnewidiol ar gyfer newid sylweddol o ran dull Cyfoeth Naturiol Cymru o gynnal a gwella bioamrywiaeth yng Nghymru, i gyflenwi buddion lluosog ar gyfer llesiant pobl Cymru. Yn ei hanfod, mae angen i ni feddwl yn fwy uchelgeisiol, gweithio'n fwy clyfar, arloesi a chynnwys eraill er mwyn ceisio canlyniadau a buddion lluosog a rennir.

## Meddwl yn fwy uchelgeisiol…

Mae canolbwyntio ar **wydnwch ecosystemau** a meddwl a gweithio ar y **graddfeydd priodol** yn ofynion allweddol y ddeddfwriaeth newydd. Mae rheoli adnoddau naturiol yngynaliadwy yn cydnabod y rôl bwysig mae diogelu rhywogaethau a safleoedd allweddol yn ei chwarae wrth ddarparu gwasanaethau ecosystemau ac ar gyfer diogelu a gwella gwydnwch ecosystemau, ond mae'n golygu canolbwyntio mwy o ymdrech ar waith strategol ac ar raddfa fwy, o ran y prosiectau ymarferol rydym yn eu gwneud a'n gwaith rheoleiddiol ac ymgynghorol i ddylanwadu ar eraill, yn arbennig drwy ein gwaith ar ddatblygu datganiadau ardal. Er mwyn osgoi rhywogaethau, cynefinoedd a safleoedd gwarchodedig unigol rhag dod yn 'ynysoedd' bioamrywiaeth ar eu pennau eu hunain o fewn tirwedd neu forlun dirywiedig, mae angen i ni feddwl a gweithio ar raddfeydd mwy a mynd i'r afael â phwysau ar fioamrywiaeth a gwydnwch ecosystemau mewn ffordd gydgysylltiedig yn hytrach na thameidiog.

Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn parhau i ddiogelu a rheoli safleoedd a rhywogaethau unigol, a chefnogi prosiectau ar raddfa lai, pan fo gan ddiogelu neu adfer cynefinoedd ar raddfa leol fuddiannau ehangach i ecosystemau – er enghraifft, drwy greu neu wella cysylltedd ecolegol dros ardal o dirwedd mwy o faint. Mae safleoedd gwarchodedig yn dal i gynrychioli ein hardaloedd pwysicaf a mwyaf annwyl ar gyfer bioamrywiaeth, ac, ar gyfer rhai cynefinoedd a rhywogaethau, mae safleoedd gwarchodedig neu leoliadau penodol yn arbennig o bwysig ar gyfer eu goroesiad hirdymor.

## Gweithio'n fwy clyfar…

Rydym mewn cyfnod o newid ac ansicrwydd o ran bygythiadau amgylcheddol fel newid yn yr hinsawdd, clefydau planhigion a rhywogaethau estron goresgynnol. Mae dull ymaddasu yn angenrheidiol er mwyn mynd i'r afael â phroblemau wrth iddynt godi, ac i fanteisio ar gyfleoedd. Er enghraifft, mae angen i ni ymateb yn gyflym i ddigwyddiadau fel llifogydd, digwyddiadau llygredd yn y môr neu ddyfroedd croyw, ac achosion o glefydau, plâu a rhywogaethau goresgynnol, gan ddargyfeirio

[12] *Cynllun Adfer Natur Cymru:gosod y trywydd ar gyfer 2020 a'r tu hwnt. Ar gael oddi wrth* www.llyw.cumru

adnoddau pan fo angen, cyhyd ag y bo angen. Yn y cyfamser, gall canolbwyntio ar gamau ataliol, i'w cymryd gan Cyfoeth Naturiol Cymru neu gan eraill, ein galluogi i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol colli bioamrywiaeth a gwydnwch ecosystemau gwael, yn hytrach nag ymateb mewn ffordd ymatebol i'r symptomau neu'r effeithiau. Yn ogystal ag ymateb yn gyflym i ddigwyddiadau, mae angen i ni fuddsoddi mewn camau rhagweithiol i atal problemau rhag codi yn y lle cyntaf.

Mae mynd i'r afael ag achosion creiddiol difrod i fioamrywiaeth yn hytrach na cheisio rheoli'r symptomau yn fwy tebygol o gyflenwi buddiannau yn yr hirdymor, sy'n egwyddor arall rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy ac, wrth gwrs, yn hanfodol ar gyfer edrych ar ôl buddiannau cenedlaethau'r dyfodol yn ogystal â'r genhedlaeth bresennol. Er mwyn mabwysiadu dull mwy ymaddasol ac ataliol a chanolbwyntio ar nodau hirdymor, ar brydiau gallai fod yn angenrheidiol i leihau'r rolau a'r lefelau gwasanaeth a sefydlwyd er mwyn rhyddhau adnoddau. Bydd hyn yn ei gwneud yn ofynnol i Cyfoeth Naturiol Cymru fod yn sefydliad hyblyg ac ystwyth.

Rydym hefyd mewn cyfnod o newid gwleidyddol ac economaidd sylweddol. Mae nifer o rwymedigaethau a mesurau cyfreithiol presennol Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer cadwraeth bioamrywiaeth yn deillio o ddeddfwriaeth Ewropeaidd. Gallai penderfyniad y DU i adael yr UE newid y fframwaith cyfreithiol yr ydym yn gweithio oddi tano yn sylweddol a pholisïau'r llywodraeth a'r grymoedd economaidd a chymdeithasol sydd yn y pen draw yn llywio patrymau'r defnydd o dir a'r môr yng Nghymru. Bydd angen i Cyfoeth Naturiol Cymru allu manteisio ar y cyfleoedd mae gadael yr UE yn eu darparu, ac ymateb yn effeithiol i'rrisgiau mae'n eu cynrychioli. Er enghraifft, mae potensial yng Nghymru i ddatblygu system cymorth amaethyddol newydd wedi'i adeiladu o'r cychwyn cyntaf ar daliadau ar gyfer canlyniadau amgylcheddol cadarnhaol. Os gall egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, gan ymgorffori gofynion bioamrywiaeth a chyflenwi amrediad o wasanaethau ecosystemau ochr yn ochr â chynhyrchu bwyd o ansawdd uchel, gael eu hymgorffori i systemau cymorth cyhoeddus ar gyfer amaethyddiaeth a defnyddiau a datblygiadau tir eraill, gallai wneud lefelau cyllid ar gael ar gyfer bioamrywiaeth sy'n fwy o faint na'r adnoddau sydd ar gael drwy ffynonellau cyllid cyfredol. I'r gwrthwyneb, gallai newidiadau i'r amgylchedd economaidd ar gyfer amaethyddiaeth a sectorau eraill yng Nghymru o ganlyniad i adael yr UE, neu leihad sylweddol o ran lefelau taliadau cymorth, lywio newidiadau difrifol o ran patrymau defnydd tir ledled Cymru, gydag effeithiau anrhagweladwy ar fioamrywiaeth a phwysau ar wasanaethau ecosystemau.

Daw'r dystiolaeth angenrheidiol ar gyfer cefnogi rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy mewn nifer o ffyrdd ac o nifer o ffynonellau posib gwahanol. Byddwn ni'n ei chael yn anodd dylanwadu ar ymddygiad i gyflawni canlyniadau gwell heb ddealltwriaeth o'r hyn sy'n gyrru newid amgylcheddol. Felly, yn ogystal â bod angen tystiolaeth wyddonol gadarn yn disgrifio cyflwr bioamrywiaeth ac ecosystemau a'r ffordd maent yn newid, mae angen hefyd tystiolaeth ar yr amrediad o ffactorau cymdeithasol, economaidd a diwylliannol, gan gynnwys profiad byw sy'n llywio'r galw am ddefnyddio adnoddau naturiol er mwyn cyflawni rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Gall y dystiolaeth rydym yn ei defnyddio fod ar y ffurfiau sydd yn draddodiadol wedi bod yn gonglfaen cadwraeth bioamrywiaeth, fel data o arolygon a monitro amgylcheddol a chanfyddiadau, ymchwil a adolygwyd gan gymheiriaid, ond gall hefyd ddod o ddulliau eraill fel y rheini sy'n seiliedig ar wyddoniaeth dinasyddion a synhwyro o bell. Gall cyfuno'r defnydd o ddulliau traddodiadol a rhai nad ydynt yn draddodiadol i gasglu a defnyddio data a thystiolaeth gynhyrchu llawer o wybodaeth ddefnyddiol a fyddai fel arall yn amhosib neu'n anymarferol i'w chasglu. Mae mwy o ddefnydd o brosiectau gwyddoniaeth dinasyddion hefyd yn darparu cyfleoedd pellach i unigolion a chymunedau ymgysylltu'n weithredol a chymryd mwy o berchenogaeth ar fentrau bioamrywiaeth.

**Atebion sy'n seiliedig ar natur**
Mae datrysiadau sy'n seiliedig ar natur yn cael eu diffinio yn y Polisi Adnoddau Naturiol fel a ganlyn:

> Datrysiadau sydd wedi'u hysbrydoli neu eu cefnogi gan natur, sy'n gost effeithiol ac yn darparu buddion amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd ar yr un pryd ac yn helpu i adeiladu gwydnwch

Rhoddir diffiniad tebyg gan yr Undeb Rhyngwladol dros Gadwraeth Natur:

> Camau gweithredu i amddiffyn, rheoli'n gynaliadwy ac adfer ecosystemau naturiol neu ecosystemau a addaswyd sy'n mynd i'r afael â heriau cymdeithasol yn effeithiol ac yn ymaddasol, gan ddarparu buddion i fioamrywiaeth a llesiant dynol ar yr un pryd.

## Arloesi…

Yn ogystal â bod â gwerth cynhenid eu hunain, mae bioamrywiaeth ac ecosystemau yn darparu buddion lluosog i ni. Wrth wneud penderfyniadau sy'n effeithio ar adnoddau naturiol, mae angen i ni gynllunio cyflenwi buddiannau lluosog ble bynnag y bo'n bosibl ac ystyried sut y gallai bodloni un set o amcanion adnoddau naturiol effeithio yn gadarnhaol neu'n negyddol ar amcanion eraill. Mae tynnu sylw at yr amrediad o fuddiannau y mae bioamrywiaeth ac ecosystemau yn eu darparu a'u cyfraniad i lesiant ar draws y nodau llesiant yn allweddol ar gyfer adeiladu dealltwriaeth a chymorth cyhoeddus i gadwraeth a gwella bioamrywiaeth. Mae cyfleoedd economaidd hefyd ar gyfer busnesau, lle y gall prosiectau gwella amgylcheddol gyflenwi enillion bioamrywiaeth a gwasanaethau ecosystemau eraill ochr yn ochr ag amcanion masnachol. Gallai datblygu marchnadoedd newydd ar gyfer gwasanaethau ecosystemau ddatgloi ffynonellau newydd o gyllid posib ar gyfer prosiectau er budd bioamrywiaeth.

Gyda chysylltiad agos at y ffocws ar wydnwch ecosystemau a buddion lluosog, mae Cyfoeth Naturiol yn ymrwymedig i ddatblygu datrysiadau sy'n seiliedig ar natur ar gyfer rheoli adnoddau naturiol, yn unol ag un o flaenoriaethau allweddol polisi Llywodraeth Cymru ar adnoddau naturiol. Mae cyflenwi datrysiadau sy'n seiliedig ar natur yn un o dair blaenoriaeth y Polisi Adnoddau Naturiol.12 Mae'n golygu gweithio gyda systemau a phrosesau naturiol, yn aml ar raddfa tirwedd neu ddalgylch, yn hytrach na dibynnu ar ddatrysiadau a wnaed yn lleol neu ddatrysiadau technegol yn unig. Mae enghreifftiau'n cynnwys lliniaru llifogydd drwy adfer cynefinoedd afonydd a gorlifdiroedd, rhoi gofod i gadw dŵr llifogydd yn naturiol, addasu'r gwaith o reoli coedwigoedd a ffermydd i wella ansawdd dŵr, lleihau erydu arfordirol, a lliniaru effeithiau cynnydd yn lefel y môr drwy reoli ac adfer cynefinoedd arfordirol, neu wella gwerth economaidd pysgodfeydd drwy adfer cynefinoedd. Fel yr awgryma'r enw, dylai datrysiadau sy'n seiliedig ar natur ddarparu cyfleoedd i gynnal a gwella bioamrywiaeth a gwelliannau i wydnwch ecosystemau, a ddylai fod yn elfen allweddol a gynlluniwyd o'r dechrau bob amser.

## Cyflawni canlyniadau a rannwyd

O ran egwyddor cydweithio ac ymgysylltu rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, mae Cymru eisoes wedi gweld newidiadau sylweddol ar lefel leol i'r systemau ar gyfer cynllunio a rheoli adnoddau naturiol yn gydweithredol, gan gynnwys sefydlu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, rhoi dyletswydd bioamrywiaeth well o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) i amrediad eang o awdurdodau cyhoeddus, a'r gofyniad ar gyfer paratoi datganiadau ardal. Drwy alluogi ac annog eraill i ddatblygu datrysiadau a gwelliannau bioamrywiaeth mewn ffyrdd sy'n ystyried amgylchiadau lleol a realiti cymdeithasol ac economaidd, gallwn ddarparu buddion sy'n ystyrlon o bersbectif lleol ac yn fwy cynaliadwy. Mae hyrwyddo cyfranogiad y cyhoedd yn ein gwaith yn golygu rhoi pobl wrth wraidd ein proses o wneud penderfyniadau. Drwy ymgynghori â'r cyhoedd a hwyluso cyfranogiad y cyhoedd a chymunedau lleol lle bynnag y bo'n bosib, yn enwedig yn ystod camau cychwynnol prosiect neu ddatblygiad cynllun, gallwn feithrin ymdeimlad o stiwardiaeth a chyfrifoldeb a rennir dros natur

[12] *Polisi Adnoddau Naturiol*, ar gael oddi wrth www.llyw.cymru

# Atodiad 2: Cefnogi'r gwaith o gyflawni amcanion y Cynllun Gweithredu Adfer Natur ac amcanion llesiant CNC

Bwriedir i bob un o'r chwe maes gweithredu ar fioamrywiaeth a amlinellir yn y ddogfen hon gyfrannu at gyflawni amcanion llesiant Cyfoeth Naturiol Cymru ac amcanion y Cynllun Gweithredu Adfer Natur. Mae'r tabl isod yn tynnu sylw at gysylltiadau allweddol.

| | Chwe maes gweithredu CNC ar fioamrywiaeth | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cysylltu pobl a bioamrywiaeth | Ymgorffori bioamrywaeth i holl swyddog-aethau Cyfoeth Naturiol Cymru | Gwella'r dulliau gweithredu ar gyfer safleoedd gwarchodedig | Gweithio gydag eraill er mwyn cynnal/gwella bioamrywiaeth | Bod â'r dystiolaeth gywir i lywio ein gwaith | Buddsoddi mewn gwybodaeth a sgiliau staff |
| **Amcanion y Cynllun Gweithredu Adfer Natur** | | | | | | |
| 1. Ymgorffori bioamrywiaeth yn y broses benderfynu ar bob lefel | ■ | ■ | | ■ | ■ | ■ |
| 2. Diogelu cynefinoedd a rhywogaethau allweddol | | | ■ | ■ | | ■ |
| 3. Cynyddu gwydnwch ecosystemau | | | ■ | ■ | | ■ |
| 4. Mynd i'r afael â phwysau allweddol | | ■ | ■ | ■ | | ■ |
| 5. Gwella tystiolaeth a dealltwriaeth | ■ | | | | ■ | ■ |
| 6.Llywodraethu a chymorth ar gyfer cyflenwi | | ■ | | ■ | | ■ |
| **Amcanion llesiant Cyfoeth Naturiol Cymru** | | | | | | |
| WBO1 Hyrwyddo'r amgylchedd a rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy* | ■ | | | ■ | | ■ |
| WBO2Sicrhau bod tir a dŵr yn cael eu rheoli mewn modd integredig | | ■ | | | ■ | ■ |
| WBO3 Gwella gwydnwch ac ansawdd ein hecosystemau | | ■ | ■ | | | ■ |
| WBO4 Lleihau'r risgiau o beryglon amgylcheddol megis llifogydd a llygredd | | ■ | | ■ | | ■ |
| WBO5 Helpu pobl i fyw bywydau mwy iach a bodlon | ■ | | ■ | | | ■ |
| WBO6 Hyrwyddo busnesau llwyddiannus a chyfrifol | ■ | ■ | | ■ | | ■ |
| WBO7 Datblygu Cyfoeth Naturiol Cymru yn sefydliad rhagorol sy'n darparu gwasanaeth cwsmeriaid o'r radd flaenaf | | ■ | | | ■ | ■ |

# Atodiad 3: Rhestr o fyrfoddau a ddefnyddiwy

| | |
|---|---|
| AONB | Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol |
| ERAMMP | Rhaglen Monitro a Modelu'r Amgylchedd a Materion Gwledig |
| FCS | Favourable Conservation Status |
| IUCN | Yr Undeb Rhyngwladol dros Gadwraeth Natur |
| JNCC | Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur |
| MPA | Ardal Forol Warchodedig |
| NGO | Corff anllywodraethol |
| NNR | Gwarchodfa Natur Genedlaethol |
| NRAP | Cynllun Gweithredu Adfer Natur |
| NRP | Polisi Adnoddau Naturiol |
| NRW | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| OSPAR | Confensiwn Oslo–Paris ar warchod yr amgylchedd morol yn rhan ogledd-ddwyreiniol yr Iwerydd |
| PSB | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus |
| SAC | Ardal Cadwraeth Arbennig |
| SMNR | Rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy |
| SoNaRR | Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol |
| SPA | Ardal Gwarchodaeth Arbennig |
| SSSI | Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig |
| WBP | Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru |
| WBO | Amcan lleisiant |
| WGWE | Ystad goetir Llywodraeth Cymru |



Cyhoeddwyd gan:
Cyfoeth Naturiol Cymru
Tŷ Cambria
29 Heol Casnewydd
Caerdydd
CF24 0TP

@NatResWales
@NatResWales

©Cyfoeth Naturiol Cymru

Cedwir pob hawl. Ni all y ddogfen yma gael ei hatgynhyrchu heb ganiatâd ysgrifenedig Cyfoeth Naturiol Cymru.

0300 065 3000 (Llun-Gwe 8am-6pm)
ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
www.cyfoethnaturiol.cymru

Argraffwyd ar bapur: Cocoon offset wedi'i ailgylchu 100%